Except *Dau, dwy,* which make the Substantive following change its radical Initial into its Soft; as, *Dau fâb; dwy ferch.* So *un* before a Feminine Substantive; as, *Un wraig; un ferch. Tri* and *Chwe* change the Initials of the Substantives following them into the Aspirate; as, *Tri chân; chwe chân.* But in the Feminine Gender, *Tair cares.*

When Substantives beginning with *B, G, D,* are compounded with *Pump, saith, wyth, naw, dêg, pymtheg, ugain, deugain, &c. Cant*; then the Substantives make the following Changes of their Initials, viz. *b* into *m, d* into *n,* and *g* thrown away; as, *Pumnyn, seith-wr, wythmuwch,*

Ordinals of the Feminine Gender change the Initials of their Substantives into their Soft; as, *Y drydedd law; yr ail glust; y bedwaredd, bummed, seithfed, &c. wraig.*

CHAP. XXVII.

THE CONSTRUCTION OF PRONOUNS.

MI, ti, ni, after the Preposition *i,* do sometimes throw away their own *i,* and are written *im', it', in',* instead of *i mi, i ti, i ni.* And poetically *ym', yt', yn'.*

Chwi likewise, after the same Preposition *i*, throws away its own *i*; and *ch* and *w* being transposed, it is written *iwch* for *i chwi*;—instead of which we often find in the Poets, *uwch'*, and *ywch'*.

The Pronoun Relative is often understood in the British; as *Clywais iaith ni ddyallwn*, I heard a Language (that) I understood not. Ps. lxxxi. 5. *I'r farn a orchymmynnaist*, to the Judgment (that) thou hast commanded. Ps. vii. 6. *Efe a'i dysg ef yn y ffordd a ddewiso*, him shall he teach in the way (that) he shall choose. Ps. xxv. 12. *Et sic millies*, saith Dr. Davies.

The Pronouns Possessives, *Mau*, mine, and *Tau*, thine, are ever placed after their Substantives; Y, or Yr, being also put before the Substantives; as, *Y tâd mau; y fam fau: Y gŵr tau; y wraig dau*: So changing the Initials of *mau* and *tau*, to their Softs, if their Substantives be Feminines. *Mau* and *tau*, when they have no Substantive expressed, have the Article Y before them; as, *Y mau, y tau*, Masculine. *Y fau, y dau*, Feminine.

All the other Possessive Pronouns (except *Eiddo*) are placed before their expressed Substantives; the radical initial Letter of their Substantives being changed, after *Fy*, into their Liquids; as, *Fy na; fy mara, &c.* after *Dy*, thine, and *Ei*, his, into their Softs; as, *Dy blant, dy dda, dy, fara; Ei blant, &c.* after *Ei*, her, into their Aspirates; as, *Ei phen; ei thâd; ei chân*. *Ein*, our; eich, your; and *eu*, their, make no Change of the Initials of their Substantives; as, *Ein tâd; eich Duw; eu câr*.

These Pronouns are contracted thus; *'m*, from *mi* and *mau; 'th*, from *t* and *tau; 'i* from *ei*; *'n*, from *ein*; *'ch*, for *eich; 'u*, for *eu*; and are compounded with *A*, and; *â*, with; *na*, neither or nor; *i*, to; *o*, out of.

Ei, his or her, and *Eu*, their, after *i*, to, are changed into *w*; as, *i'w dâd, i'w thâd*, to his Father, to her Father; *i'w tâd*, to their Father. Instead of which they say in *South-Wales*, *idd ei dâd;* Masc. Gender, *idd ei thâd*; Fem. Gender, *idd eu tâd*, plur.

There are thirteen affixed Pronouns used in Composition with Prepositions, viz. *Af, yf, of*, from *fi*, I; *At, yt, ot*, from *ti*, thou; *Om, ym*, from *ni*, we; *Och, ych*, from *chwi*, you; *ynt*, from *hwynt*, they; *O* or *aw*, from *efo*, he, that; *i*, from *hi*, she, her.

They are compounded with Prepositions thus:

Ar, upon; *arnaf, arnat, arno* or *arnaw, arni*; *Arnom, arnoch, arnynt*, upon me, thee, him, her; us, you, them.

At, to; *Attaf, attat, atto, &c.* to me, thee, him, &c.

Am, hath *dan* put between it and the affixed Preposition; as, *Amdanaf, amdanat, amdano* or *amdanaw, amdani* and *amdeni*. Plur. *Amdanom, amdanoch, amdanynt*.

Can or *Gan*, with; as, *Cennyf, cennyt; cennym, cennych; Gennyf, gennyt; gennym, gennych*; changing *a* of *Can* and *Gan* into *e*; and *Cantho, canthi, canthynt*; or *Ganddo, ganddi, ganddynt*, retaining *a*.

Er, for the Sake of; as, *Erof, erot, erddo, erddi; erom, eroch, erddynt*.

Heb, without; *Hebof, hebot, hebom, heboch*, and *hebddo, hebddi, hebddynt*.

Hyd, (with *Ar*, in Apposition) all over; as, *ar hydof, ar hydot, ar hyd-ddo, ar hyd-ddi: Ar hydom, ar hydoch ar hyd-ddynt*, all over me, thee, &c.

I, to; as, *im', it', in'*, (or poetically, *Ym', yt', yn'*,) to me, thee, us. *Iddo, iddi, iddynt*, to him, her, them.

Rhag, from, or forward; as *Rhagof, rhagot, rhagddo, rhagddi*; *Rhagom, rhagoch, rhagddynt*, from me, thee, &c. *Af rhagof, dos rhagot*, I will go forward, go thou forward.

Rhwng, between; as, *Rhyngof, rhyngot, rhyngddo, rhyngddi*, or *rhyngtho, rhyngthi: Rhyngom, rhyngoch, rhyngddynt* or *rhyngthynt*; between me, thee, him, &c.

Tan, under; as, *Tanaf, tanat, tano, tani*; *Tanom, tanoch, tanynt*, under me, thee, him, &c.

Tros, for, or over; as, *Trosof, trosot, trosto, trosti*; *Trosom, trosoch, trostynt*, for, or over me, thee, him, &c.

Trwy, through; as, *Trwof, trwot, trwyddo, trwyddi*; *Trwom, trwoch, trwyddynt*, through me, thee him, her, &c.

Wrth, by, or to; as, *Wrthyf, wrthyt, wrtho, wrthi*; *Wrthym, wrthych, wrthynt*; by, or to me, thee, him, her, &c.

Yn, in, or within; as, *Ynof, ynot, yntho* or *ynthaw* or *ynddo, ynthi*, or *ynddi*; *Ynom, ynoch, ynthynt*, or *ynddynt*; in, or within me, thee, him, her; us, you, them.

The Poets use also *Ynto* or *yndo, ynti* or *yndi*.

'Cabla dy fro dda i'm gŵydd i,
A'th randir, a thro yndi,' L. G.

'Seintwar a thorres ynti,
'Ni thyrr dŷn ddim o'th air di.' O. Ll. M.

The Poets use likewise, *Rhôf, rhôm, rhôd, rhôch*, for *Rhyngof, rhyngom, rhyngot, rhyngoch*.

'Dyro, mwy i'th bryderir,
Rhôd a'r cadarn hyarn hir.' G. I. H.

'Rhowch groes rhôch a gwyr isod.' L. Mon.

'Cymmer reswm, trwm bod rhôch,
A dod reswm da drosoch.' T. A.

'Ond nâ ddylit ddileu
Y rhwym fŷth y rhôm a fu.' D. G.

The Pronoun Possessive *Eiddo*, is likewise compounded with the affixed Pronouns; as, *Eiddof, eiddot, eiddo* or *eiddaw, eiddi*; *Eiddom, eiddoch, eiddynt*.

But beside the afore-mentioned Prepositive Compositions, Personal Pronouns are also subjunctively compounded with the Particle *Au*; placing a double *nn* between *Mi* and *Ni*, and *Au*; and *th* between *Ti, chwi, hi, hwy*, and *au*; as, *Minnau, ninnau*; *tithau, chwithau, hithau, hwythau: Hwynt*, makes *hwyntau*; *and Yntau*, is an Anomal.

Personal Pronouns have also *Hûn*, or *hunan* (self or alone) subjoined in Apposition with their Singulars: And *Hûn*, or *Hunain*, (selves or alone) with their Plurals. See *Hûn*, or *Hunain* in the Dictionary.

CHAP. XXVIII.

THE CONSTRUCTION OF VERBS.

The Affirmative Adverb *a* is generally put after Nominative Cases, before the Persons of Verbs, if the Verbs intend Affirmation; as, *Mi a garaf, ti a geri, eſe a gâr. Ni a garwn, chwi a gerwch, hwy a garant.*

But in South-Wales *y* is often used instead of *a;* as, *Mi y garaf, ti y geri, chwi y gerwch, &c.* And the radical Letter of the Verb is then turned to its Soft.

But if any Part of the Sentence be placed before the Nominative Case, the Verb then is set before its Nominative, reserving its radical Initial, and having the Adverb of Affirming Y prefixed to it, if it begin with a Consonant, *yr,* or *ydd* in South-Wales, if it begin with a Vowel; as, *I ni y gwnaeth Duw'r bŷd. I mi yr addawodd.* But when the Accusative Case is placed before the Verb, the *y* or *yr* is sometimes changed into *a*; as, *Cyflafan a wnaeth eſe.*

A is never set before a Verb Substantive, but always *y*; as, *Y mae Duw yn y nef, Duw y sydd dda.*

Yet *Lewis Glyn Cothi* said, *Emrys yn y maes a wyf.*

Instead of *y* the Antients used *yd*;

'Hir yd goffeir a gofiaaf.' D. B. *for* y coffeir.
'Na'r trihael haelach yd gaffad.' D. B. *for* y caffad.

But *y* is most commonly omitted before the Verb Substantive; as,

'Mae'r goron ym mrîg eryr.'
'Mae'm mrŷd y corph mau 'mrawd cu.'
'Duw sy dda, dwys ei ddial.'
'Duw sydd a dewis iddaw.'

If the Verb begin the Sentence, and its Nominative Case come after it; then doth the Verb either immediately lead; as, *Gwnaeth y milwr gyflafan:* Or it hath the Particle *E* put before it; as, *E wnaeth y milwr gyflafan.*

The Nominative Cases of Verbs, whether placed before or after their Verbs, reserve their radical Initials; as, *Dafydd a ddywedodd wrth Ioab*; or, *Dywedodd Dafydd wrth Ioab. Duw a wnaeth y bŷd;* or, *Gwnaeth Duw y bŷd.* However the Nominative Case of *Bu,* (was) doth sometimes assume the soft Form; as, *Bu fraw yn y gwersyll.* 1 Sam. xiv. 15. And so do Nominative Cases, placed after the third Person Singular of the Verbs ending in *ai*; whatever Moods or Tenses the Verbs be of; as, *Y gallai ddŷn,* that a man could. *Pe dywedasai ddŷn wrthyf,* if a Man had told me. *Onid arbedai Dduw,* if God would not spare. *Pettai,* or *Pe bai ddŷn yn gallu,* if a Man could.

If the Nominative Cases of Verbs Passives, which are ever placed after their Verbs, immediately follow their Verbs, they reserve their radical Initials; as, *Ofner Duw. Dysgir daioni i ddynion.* But if

some other Word or Words come between the Passive Verb and its Nominative, then doth the radical Letter of the Nominative turn to its Soft; as, *Dysgir i ddynion ddaioni.*

A Noun Collective singular may have a Verb plural as well as a singular; as, *Y bobl a symmud* { *odd.* / *asant.*

So when two Proper Names come before a Verb, the Verb may be indifferently singular or plural; as,

Pedr ac Ioan { *aeth* / *aethant* } *i'r deml.*

Accusative Cases coming after Verbs (whether immediately or at a Distance) whatever Person the Verb is of, do change their Radicals into their Soft; as, *Duw a wnaeth ddŷn. Parodd gywilydd i mi. Y milwyr a wnaethant ddifrod. Dengys Duw drugaredd. Portha bugail da braidd yr Arglwydd.*

But if the Accusative Case begin the Sentence, it retains its radical Letter; as, *Cyflafan a wnaeth y milwr.*

When two Accusative Cases, in Apposition, come after a Verb, the latter is connected to the former by the Particle *Yn*, as, *Cefais gosp yn wobr am fy mhoen.*

The Infinitive Mood makes no Change in the radical Letter of the Word governed of it; so the Word governed immediately follow the Infinitive Mood; as, *Na chynnyg wneuthur cam â neb.* But if some other Word or Words come between the Infinitive Mood and the Word governed, then the radical Initial of the Word governed is turned to its Soft; as, *Na chynnyg wneuthur â neb gam.*

Nouns come after Verbs of Filling, with the Preposition *o*; as, *Llenwi ysgubor o ŷd.* As also with *ag* and *â*; as, *Llenwi llestr â gwin. Llenwi pwrs ag arian*

Verbs of Abounding have *o*; as, *Amlhau o dda. Lliosogodd o gyfoeth. Cyfoethogodd o râs.*

Of Accusing have *o*; as, *Pwy a'm argyhoedda i o bechod? Cyhuddo ddŷn o ladrad.*

Of Agreeing, have *â*; as, *Cyttuna â'th elyn.* And Verbs that are of a contrary Signification; *Ymladd â dau.*

Of Arraying, have *a* or *am*; as, *Gwisg dy hún â phais. Gwisg bais am danat.*

Of Asking and Intreating, have *i* or *gan*; as, *Arch iddo; gofyn iddo; erchais ganddo; gofynnais ganddo.*

Of Buying, have *gan*; as, *Prynais farch gan Ioan.*

Of Calling upon, have *ar*; as, *Galw ar Ioan. Llefain ar Hywel. Gweiddi ar Ithel. Cyfarth ar y llenad.*

Of Communicating, have *â*; as, *Cyfrannu â'r tlawd.*

Of Defending or Delivering, have *rhag*, or *oddiwrth*; as, *Cadw ni rhag niweid. Gwared ni oddiwrth blâ.*

Of Hearkening to, have *ar*; as, *Gwrandawodd yr Arglwydd ar ei Weddi.*

Of Loading, have *â* or *ag*; *Llwytho ag aur, ag arian, â thrysor.*

Of Meriting, have *ar*; *Haeddu ar ddŷn.*

Of Receiving, have *gan;* as, *Cefais hyn gan Lywarch. Cymmer gan Ioan.*

Of withdrawing, have *o* or *oddi*; as, *Aeth o'i wlad. Dôs oddi-yma. Cilia oddiwrthyf.*

Verbs signifying Practice or use, have *o*; as, *Ymarfer o fwynder i bawb. Arfer o synwyr.*

Verbs signifying a Passion of the Mind, have *wrth*; as, *Digiodd wrth y llange. Tosturia wrth y tlawd. Trugarhau, creuloni, ffrommi, chwyddo, afrywiogi, sorri, wrth ei gydymmaith.*

The Instrument wherewith a Thing is done, is induced with *â*, between it and the Verb; as, *Taro â chleddyf, â ffon. Brathu â cholyn. Lladd â chyllell.*

Nouns of Price follow the Verb with *Er*; as, *Gwerthu er punt; Prynu er arian.* And sometimes with *Am*; as, *Prynais am chweugein.*

Verbs Passives have *gan*, with the casual Word of the Person acting, after them; as, *Prynir march ganddo. Cyhuddir y gŵr o frâd gan ei wâs ei hûn.*

The third Person Singular of all Tenses is used indefinitely of any Person, especially if the Nominative Case be emphatical. And the Use of this Construction is most frequent in the Verb-Substantive; as, *Ai ti yw brenhin yr Iuddewon? Mi yw'r winwydden, a chwithau yw'r canghennau.*

'Gwŷr a wna gŵr yn wrol.
Gŵr a wna gwŷr yn ei ôl.
Aed y traed hŷd atto'r ŵyl.' G. Gl.

'Mi a eirch yt y march hwn.' I. T.

'Dynion a wna dau wyneb.
Di a gynnull yn dêg uniawn.' G. Gl.

'Minneu â'm gwawd tafawd da
Am ei esgair a'i mysga.'

When a Question is asked in the Present Tense, the Answer is made by the same Tense of the same Verb; as, *A weli di hyn? Gwelaf. Wyt ti yn clywed? wyf. A geri di fi? caraf.*

If the question be in the Preterperfect tense, and the Emphasis be in the Verb, the Answer is made, if Affirmative, by *do*; if Negative, by *Na ddo.* Or otherwise, by repeating the Verb, and putting it in the proper Person, if an affirmative Answer: But, if Negative, by repeating the Verb, and putting *Na* before it; as, *A geraist di hyn? Cerais,* or *do*; or Negatively, *Na ddo,* or *na cherais.*

But if the Emphasis be in some other Words, the Question is made by *Ai*, and the Answer is made affirmatively by *Ie,* yes; or negatively by *Nage,* no; as, *Ai hwn a geraist? Ie,* or *Nage.*

When a Question is asked in the Future Tense, the Answer is made by the same Tense, or by the Future *Gwnâf,* I will do; as, *A geri di? Caraf,* or *gwnâf.*

Absolute Sentences are made by a Conjunction and the Infinitive Mood of the Verb; as, *A'r Brenin yn dyfod,* the King coming, or whilst the King came. Or the Infinitive being understood; as, *A ni yno.*

CHAP. XXIX.

OF THE CONSTRUCTION OF ARTICLES.

Y Is ever placed before Words beginning with Consonants; and before *w*, when *G* is thrown away from the Word, as being Feminine, as *Y wraig*: And sometimes before words beginning with *I*; as *y iaith*. *Yr* is never put entire but before such Words as begin with Vowels.

These Articles restrain or determine the Sense of the Word they are put before, to same Particular; in the some Manner as the definite Article *the* in English.

When Words of the Masculine Gender have an Article set before them, their radical Letters are not changed; as, *Y gŵr, y brenin:* But if they be feminines, their Initials are changed into their Soft; as, *Y Frenhines; y wraig.*

When a Welsh Verb, Preposition, or other Particle, ending with a Vowel, come before a Substantive or Adjective beginning with a Consonant as well as Vowel; and if *the* be sound in the English between them: Then is *'r* or *yr*, added to those Words ending with Vowels; and tue Substantives or Adjectives make no Change of their radical Initials, if Masculines; but change them into their Soft, if Feminines (so those Feminines begin not with *Ll* or *Rh*); as, *Cospi'r bradwr; Cospi'r anfadwr; Y tâd a'r fam; Na'r tâd na'r fam; Trwy'r tâd a thrwy'r fam; O'r tâd ac o'r fam; I'r tâd ac i'r fam; Cospi'r tâd a chospi'r fam; Y grasol dâd a'r drugarog fam; Y drugarog fam a'r grasol dâd; Myfi yw* (or *ydyw'r*) *dŷn.*

Proper Names have not the Articles set before them, because they do of themselves *individually* or *particularly* distinguish the Things or Persons, of which one speaks; and they being thus particularly distinguished need not any more particular Distinction. And for this Reason the Word DUW, signifying the *Supreme Being*, has no Article before it; except where HE is distinguished from the false Gods of the Heathen; as in *Acts* xvii. 24. *Y Duw a wnaeth y bŷd a phob peth sydd ynddo, &c.* So likewise the Names of Countries, Cities, Rivers, &c. have no Articles before them.

Yet the Ancients commonly set an Article before Proper Names; as, *Y Cynon, Y Gwn.*

An Article is not put before the former of two Substantives, when they betoken divers Things.

CHAP. XXX.

OF THE CONSTRUCTION OF ADVERBS.

A, An Adverb of Asking and of Affirming, makes the Word following it change its radical into its Soft; as, *A fu ddŷn drymmach ei fŷd?* DUW *a ddywedodd.*

Na, ni, o na, before Words beginning with *B, D, G, Ll, Rh*, make the Initials of those Words soft; as, *Na ſlysia; na ddŷwaid; na âd; na wna; na lâdd; na rodia.*

Except Verbs Substantives, which are used, sometimes with a radical, sometimes with a soft Initial; as, *Dywedodd na byddem gwaeth. Na fyld ymrysongar.*

'Ni beiddiaf dy rybuddiaw.' D. G.
'Ni beiddiaf, ni bu addas,
Ganu dy gerdd gan dy gâs.' Ior. F.
'Ni feiddiaf rhag anfoddau.'

And so before any other Verbs, in the Poets;

'Ni metha larwm Mathae.' G. Gl.
'Ni mynnen am ei einioes.' D. Ed.
'Pam ar fonedd a gwêdd gwiw
Brawd iarll na bwrid eurlliw.'

They change the radical Initials of the Verbs beginning with *C, P, T*, into Aspirates; as, *Na châr; ni phâr; o na thawit.*

Words preserve their radical Initials, when they come after any of these Adverbs following; viz. *Agatſydd, ai, fe allai, allan, nid amgen, amgylch, ond antur, yr awrhon, cyn, o ddamwain, diamman, dian, digon, dioer, o'r diwedd, yn ddiweddar, yn ddiwethaf, ebrwydd, eisioes, erllynedd, etto, eusys, fal* and *fel, felly, yn fore, y fory, frŷ, i fynu, gwedi, gwell, heddyw, yn hollawl, nid hwyrach, llawer, mal, malpai, megis, mewn; mwy, myn, mynych, nad, na's, nid, nis, o ethryb, o herwydd, oddi-accw, oddi-draw, oddi ſewn, oddi-yma, oddi-yna, odduchod, oddisod, yn ôl, ond odid, onid, p'le, sef, tra, tradwy, yn dragywydd, tranoeth, trennydd, i wared, weithian, y leni, ym, ymaith, ymron, yn ymyl, yna, ynawr, ys, ysgatſydd.*

The Adverbs following make the Words, which come after them, change their initial Consonants into their Soft; viz. *Accw, achlân, adolwg, adolwyn, aie, daccw, dobry, doe, draw, dyfry, dymma, dyna, e, fe, fo, gormodd, i, iddo, llyma, llyna, nâg e, nycha, oddiar, rhy, syrn, swrn, taran, wele, ychydig.*

These Adverbs, *Agos, bellach, beunydd, echdoe yma, yno*, when Verbs follow them, suffer them to retain their radical Initials; but if Substantives follow them, they change their Initials to the soft Form.

Braidd and *Prin*, before a Verb, have *y* between them and the Verbs, in Affirmations, the Verb retaining its radical Initial; as, *Prin y dûg o'r pren degwm.*

When *na*, negative comes after them, Soft; as, *Braidd na lithrais.*

When compounded with Nouns, they make them change their Initials likewise into the soft Form; as, *Braidd gyfwrdd, braidd gôf.*

It is usual in Welsh to Multiply Negatives; *Ai am nad oedd dim beddau yn yr Aipht?* as in Greek, Οὐ μὴ, οὐκ οὐδὲν.

All the Interjections make the Nouns following them change their Initials into the Soft; as, *Ha clyn; tyred ŵr.* But when Verbs come after them, they retain their radical Initials.

When we say, *o* Duw, and the like, *o* is set by itself, and Duw, absolutely, q. d. *o*, Dew.

CHAP. XXXI.

OF THE CONSTRUCTION OF CONJUNCTIONS.

The Conjunctions, *A, na* or *no*, and *oni*, change the Initial of the word following them into Aspirate; as, *Mam a thâd. A chig dy Sainct i fwystfilod y ddaiar. Na phen na chynffon. Oni châf; oni pheri.* But *Oni* has sometimes the Radical; as,

'Oni myn un am enaid,
Ymroi i Syr Rŷs, marw sy raid.' T. A.

As also the Soft; as, *Cospir di oni weithi.*

Mor and *Cyn* make no Change of *Ll* and *Rh*; as, *Cyn llyfned, cyn rhatted. Mor llawen, mor rhŷdd.*

They change all the other mutable Consonants into the Soft; as, *Mor dêg, cyn decced, mor grŷf, cyn gryfed.*

Words keep their radical Initials, when they come immediately after any of the Conjunctions following, viz. *Ai, can's, canys, cyd bo, chwaith, chwaithach, eithr, er, o ethryb, etto, hagen, o herwydd, er hynny, mai, nes, namyn, oblegid, obleid, onid, onis, on'd, os, or, pe, pes, taw, yr.*

Ped, if, is used before Vowels: except before the Tenses of the Verb-Substantive *Bod*, which hath a soft Initial; as, *Ped fyddwn, ped fyddit, ped fyddai, &c.*

Pedfuaswn, pedfuasit, pedfuasai, &c.

Or it is incorporated with the Verb, thus;

Sing. *Pettwn, pettit, pettai.* Pl. *Pettym, pettych, pettynt.*

Sing. *Pettaswn, asit, asai.* Pl. *Pettasem, asech, asent.*

The Conjunctions, *Am, can, gan, neu, pan*, change the radical Initial of the Word following into its Soft.

When a Substantive comes after the Conjunction *Hefyd*, it has a soft Initial; as, *Gwnaeth ddrwg, hefyd gyflafan.* But if a Verb follow, it retains its radical Initial; as, *Dywedodd, hefyd tyngodd.*

O, require the radical Initial after it; as, *O ceri fi*, Sometimes the Aspirate; as, *O chyfyd rhai i'm herbyn.* Psal. can, xviii. 48,

CHAP. XXXII.

THE CONSTRUCTION OF PREPOSITIONS.

The Prepositions following have a radical Initial after them, viz. *Amgylch, ar draws, cylch, er, er ys, erbyn, o fewn, ger bron, gerllaw, goris, goruwch, gwedi, gyferbyn, heblaw, heibio, o herwydd, hyd i, is,*

islaw, o ethryb, o gylch, oddifewn, rhag, rhwng, uch, uwch, uwchlaw, And *Yn* before Verbs of the Infinitive Mood, and words whose radical Initials are *Ll* and *Rh.*

Am, ar, at, can, gan, i heb, o, oddiar, tan, tros, trwy, wrth, have soft Initials after them.

Words following *A, tua, gyda,* change their Radicals into Aspirates.

Hyd may have either a radical or soft Initial.

When the Preposition *Yn* is joined to Nouns in the Signification of the Ablative Case, it hath the Liquid Form, and changeth its *n* into the Liquid of the Word following; as, *Canol, yng-nghanol,* and for Brevity's Sake, *ynghanol. Pen, ym-mhen. Ty, yn-nhy. Bara, ym-mara.* Duw, *yn*-Nuw. *Gŵr, yng-ngŵr,* and *yngŵr.*

When it denotes Quality, State, or Change of a Thing or Distribution, it changes the Initials of the Word following to the Soft Form; as *Efe a fydd yn ben, a thi a fyddi yn gynffon.* Deut. xxviii. 44. *Mi a'th wnaethym yn* Duw *i Pharao.* Exod. vii. 1. *Hi a aeth yn wialen.* Ib. iv. 4. *A'r holl ddyfroedd y rhai oeddynt yn yr afon a drowyd yn waed.* Ib. vii. 20 *Mi a'th wnaf yn ddoeth, yn ddysgedig, yn gyfoethog, &c. Hwy a lâs, yn ŵr, yn wraig, yn fychan, yn fawr, yn ddrâg, yn dda, &c.*

Moreover, Prepositions are compounded one with another; as, *o,* adding the Syllable *ddi,* is compounded with the following Prepositions, *Ar, oddiar; amgylch, oddiamgylch; ger bron, oddiger bron; rhwng, oddi rhwng; am, oddiam; wrth, oddiwrth; gyda, oddi gyda; tan, oddi tan; tros, oddi tros; trwy, oddi trwy; gan, oddi gan.* So *i fynu, i wared.*

They are also compounded in the same Manner with Adverbs of Place; *oddi-yma, oddi-yna, odducho, oddiso, oddifry, oddiobry oddi-draw, oddi-arnodd, oddi-tanodd, &c.*

CHAP. XXXIII.

THE CONSTRUCTION OF PREPOSITIONS USED IN COMPOSITION.

A, Is compounded with Words beginning with Aspirates; as, *Athrist, achlust, achwla, achwyn.*

These following change their radical Initial of the Words they are compounded with into soft; *Add,* as, *addfwyn, addfed. Am,* as, *amgylch, amdo.* And compounded with *Dy,* as, *Damgylchynu.*

Ar, as, *Arbennig, ardderchawg, arwerthu, ardymmheru.*

Ad, as, *adfywio. Dad,* as, *dadwino. Lled,* as, *lledfyw. Go,* as, *goddrwg, gobrudd. Gwrth, as, gwrthddywedyd. Hy,* as, *hybarch, hyfryd. Dar,* as, *darfod, darostwng. Rhy,* as, *rhybucho, rhybuched.*

Di, as, *dibechod, dilcr. Dy*, as, *dygymmod, dygyrch.* And *di* for *dy*, as, *dilyn Dir*, as, *dirdynnu, dirwestu.*

So *Dys*, and *dis, dos*, which come from it, save only that the soft Consonants after *s* seem to sound stronger; *Dosbarthu, dosparthu, dosbleidio, dospleidio.*

Ym is also with a Soft; as, *Ymwroli, ymbleidio.*

Gor, before the Initials *b, d*, doth change them into the Soft Form; as, *Gorfod, gorfawg, gorddwfr, gorddyfn.*

Before *m* it sometimes retains the radical Initial; as, *Gormodd, gormail:* And sometimes changes it into the Soft; as, *Gorfoledd.*

It changeth the Initials *P, C, T*, into Aspirates; as, *Gorthrechu, gorthrymmu, gorphwys, gorphen, gorchymmyn, gorcheifn, gorchaled, gorthir, gorthor, gorthew, gorthaw*;

Nid gorthaw a wnaf wrth a garwyf.' C.

Before other Initials it retains the Radical; as, *Gorllyfnu.*

An, before *Ll* and *R*, is sometimes used with the Radical; as, *Anllywodraeth, anrhydedd.*

Sometimes with the Soft Initial, and *n* being turned into *f*; as, *Afluniaidd, aflafar, afrywiog, afreolus.*

An, and *Cyn*, before the radical Letters *C, P, T, B, D*, are used in the liquid Form, the *n* being changed into the Liquid of the Word following, as in the Preposition *Yn*; as, *Cywir, ang-nghywir; Cân, cyng-nghanedd.* And more concisely, *Anghywir, cynghanedd. Perffaith, amherffaith; porth, cym-mhorth. Teilwng, an-nheilwng; twrf, cyn-nhyrfu. Brŵd, am-mrwd. Duwiol, an-nuwiol.*

Before *G* and *M* it is used with the Soft; *Gŵr, anwr. Marwol, unfarwol.*

Cyd, is used with a Soft Initial; as, *Cyd-ladd, cyd-ddwyn, cyd-fasnach.*

Sometimes before *Ll, Rh*, and Vowels, *d* is changed into *f*; as, *Cyfladd, cyfled, cyfrodedd, cyfelin.*

Cyd in others, has the same Construction as *An* and *Cyn.*

Cynt, before Vowels and *H* remains unchanged; as, *Cynt-haid.*

In others it is unconstant, and learned by use; as, *Cym-mru, cym-mhlith; cynrabad, cyndyn; cyssefin; cyntefin.*

Tra, before *C, P, T*, has an Aspirate Initial; as, *Tra-chadarn, tra-pharod, tra-thenau.* Before others the Radicals; as, *Tra-blin, tra-dyfal, tra-glew, tra-mawr.*

RHEOLAU BARDDONIAETH GYMRAEG.

BARDDODIAETH, yw'r gelfyddyd o ganu Cerdd dafod yn rheolaidd; sef yw hynny, plethu ac eiliaw caniadau Cymreig yn gerddgar a synwyrol.

Tri pheth a berthynant i Gerdd dafod, nid amgen, Odl, Cynganedd, a Mesur.

Odl, yw cydateb sain mewn sillafau perthynawl; a hynny a wneir dwy ffordd, sef, unodli, a phroestio. Unodli, yw bod sillafau o'r un rhyw yn cydateb i'w gilydd, naill ai mewn perfedd braich (yr hyn a ddangosir yn mysg y cynganeddion) ai yn y brifodl; a hynny a wnair, drwy gyfochri diwedd breichiau i ddyfod yn unsain a'u gilydd trw' 'r mesur; at yr hyn y perthyn anian a rhëol y sillafau oll. Odl, hefyd a ddichon fod o gûdd lythyren o'r gair dylynol, fel hyn,

'Dysgais i godi gyda'r——ehedydd,
A rhodio'r un dalar,' &c. *Ieuan Carno.*

Proestio, yw cyfnewid llafariaid, a chydateb cydseiniaid, yn mhrifodlau 'r mesur; yr hyn a ddangosir yn eglur yn mysg y mesurau.

Am y Cynganeddion.

Cynganedd, yw plethu ac eiliaw braich o benill, drwy gydateb cydseiniaid a chyfnewid llafariaid, yr hyn sydd rwymau pob mesur cerdd.

Dwy brif gynganedd sydd; sef, Cynganedd groes, a Chynganedd unodl, neu sain; ac o honynynt y tŷf cynganeddion eraill, megis y mae amryfal rànau ymadroddion yn tyfu o Enw a Pherwyddiad *(Verb)*.

Pedair rhyw gynganedd groes y sydd; sef, croes rywiog, croes o gyswllt, croes ewinog, a chroes ddisgynedig.

1. Croes rywiog, yr hon yw'r orau o'r cynganeddion, a blethir o'r holl gydseiniaid a fydd o flaen, ac ar ol, sillaf yr orphwysfa; ac a genir wyneb a gwrthwyneb, fel hyn,

Ffordd wyneb, 'Pûr yw ei glôd Pôr y glŷn.'	p r g l - p r g l
—*gwrthwyneb,*' Pôr y glŷn, pur yw ei glôd.'	p r g l - p r g l
Arall.— 'Diwres dwyrain dros deirawr.'	d r s d r - d r s d r
'Dros deirawr, diwres dwyrain.'	d r s d r - d r s d r

2. Croes o gyswllt, yw bôd y gydsain ddiweddaf yn yr orphwysfa yn ateb i'r gyntaf yn y fraich, fel y canlyn.

Croes gyfan gyswllt, fel hyn.

'Llunier i gall haner gair,	ll n r g - ll n r g
Lle daw angall a dengair.'	ll d n g - ll d n g

Croes haner cyswllt, fel hyn,
'Gwiallanau Ffrainc yn llawn ffrwyth.' gnllnffr-cnllnffr *g-c*
Arall,—'Dûg foliant i Gyfeiliog.' dgfl-tgfl *d-t*
Croes o gyswllt ewinog, fel hyn,
'Tynu un-oed dyn anwiw.' tnn-ddnn *t-dd*
Croes o gyswllt ddisgynedig, fel hyn,
'Gŵr a'i wisg ar ei ysgwydd.' grsg-grsg

3. Croes ewinog,* sydd fel y canlyn,
'Mwy parchus y mâb hirchwyrn.' mprch-mbhrch *p-bh*
'Llanwer côd llawen-wraig hael.' llnrc-llnrgh *c-gh*
'Ie nid hardd iawn yw tŵyll.' ndh-nt *dh-t*
'Rhi Prydain arab rhadawl.' rprd-rbrhd *pr-brh*
'Paladr haiarn pŵl trywar.' pldrh-pltr *drh-tr*
'Rhïau crefant rhag rhyfel.' rhcrf-rhgrhf *cr-grh*
'Pura plêth yw parabl hŏn.' prpl-prblh *pl-blh*
'Meddu tlŵs am y ddadl hir.' mddtl-mdddlh *tl-dlh*
'Lle mae clais llaw a magl hŏn.' llmcl-llmglh *cl-glh*
'Nid difai yw un tafod.' nddf-ntf *dd-t*
'Hîl Cynan haelawg geinwalch.' hlcn-hlggn *c-gg*
'Llunig panawg llorc benwen.' llrgpn-llrcbn *gp-cb*
'Y mae hepcor y'mhob-cais.' mhpc-mhbc *pc-bc*
'O trig ffydd trwy y cŷff hwn.' trgff-trcff *gff-cff*
'Aed llawer at y lluoedd.' dll-tll *dll-tll*
'Llyna stâd llawen was doeth.' llnst-llnsd *st-sd*
'Hapus iawn gell heb sŵn gwynt.' hpsng-hbsng *ps-bs*
'Mae hap i ti ymhob taith.' mhpt-mhbt *pt-bt*

Y rhai hyn a ddychymygwyd ar y groes rywiog, ddychweledig, er mwyn dangos cyd-trawiad yr ewinogiaid yn eu hamryfal ddullweddi.

4. Croes ddisgynedig, yw bôd y sillaf nesaf at y brifodl yn cynganeddu â'r orphwysfa (yr hon a fydd bob amser yn un-sillafog) ac yn odli yn ddisgynawl, fel hyn,
'Pwy ni'th gâr penaeth gwrol.' pnthgr-pnthgr
Croes ddwbl ddisgynedig, neu o ddwy gydsain, fel hyn.
'Bondo gwydr bendigeidran.' bndgdr-bndgdr
Arall gyda llafariaid, fel hyn,
'Un a thri yn athrywyn.' nthr-nthr

Cynghanedd draws hefyd a ffurfir o'r gynganedd groes, drwy adael rhai o'r cydseiniaid yn nghanol braich heb ddim i'w hateb, a thrawsi trostynt i gyrchu cynganedd.
Un gydsain yn ateb un, yr hon a elwir Traws fantach, fel hyn,
'Pen ar yr haelion a'u parch.' p-p
Dwy gydsain yn ateb dwy,
'Dygwyd i bawb eu digon.' dg-dg

* Cynganedd ewinog, yw pan fydd yr ebychnod *h* yn cynorthwyo un o'r cydseiniaid meddalion hyn *g, d, b*, i ateb *i c, t, p*; neu fod dwy gydsain feddal yn ateb i un galed; ac weithiau cydsain galed a weinydda i gynorthwyo un feddal, &c. megis y deallir wrth y llythyrenau Italaidd ar ymyl y ddalen, gyferbyn a'r engraffau hyny.

Arall yn ddisgynedig, fel hyn,
'Ai mawr ydyw serch morwyn.' mr-mr
Tair cydsain yn ateb tair,
'Terfyn ddaw i bob tyrfa.' trf-trf
Pedair cydsain yn ateb pedair,
'Deifrdawch gorllifawg Dyfrdwy.' dfrd-dfrd
Pump cydsain yn ateb pump,
'Gwae a fo'n brudd rhag ofn brâd.' gfnbr-gfnbr
Traws o gyswllt, fel hyn,
'A chymaint oedd eich amobr.' chm-chm
Traws o gyswllt ewinog, fel hyn.'
'Pinagl wyt ar bob bonedd.' pn-bbn *p-bb*
'Cyswllt ewinog hoyw-sain.' cs-ghs *c-gh*
Traws o gyswllt ddisgynedig, fel hyn,
'Y dŷn a bywyd anwar.' dn-dn
Traws ewinog, fel hyn,
'Llais cŵyn y truan llesg gwael.' llsc-llsgg *c-gg*
Eraill o wahanol gydseiniaid.
'Ceir tŵyll yn lle cariad hîr.' crt-crdh *t-dh*
'Mâg helaeth nŷch i'm càlon.' mghl-mcl *gh-c*
'Er parch ni bydd arab hòn.' rp-rbh *p-bh*

Am Gynganedd Sain, neu, Unodl,

Cynganedd sain, yw cyd-odliad llafarog y gorphwysfâau, o ddechreu'r fraich at y brifodl; ac iddi y mae gwahanol rywiau, fel y canlyn,

1. Sain Unodl; sef yw hynny bôd y gwant a'r rhagwant yn unodli a'u gilydd; a'r rhan olaf o'r fraich yn proestio gydâ'r rhagwant, fel hyn,
'Plâs, to dulas, tŷ deiliawg.' stdl-stdl *as-as*
'Teneuon, lyfnion, lafnau.' lfn-lfn *on-on*
'Wyf hwyr-drwm adyn llwm llesg.' &c. ll-ll *wm-wm*

2. Sain lefn, fel hyn,
'Dôd ddeuliw'r ôd ddiwael ràn.' dddlr-dddlr *ôd-ôd*
'Tònau a dagrau digron.' dgr-dgr *au-au*

3. Sain gadwynog, fel hyn,
'Dellt y chwyrn ufel-fellt chwai.' lltch-lltch *ellt-ellt*

4. Sain o gyswllt, fel hyn,
'Gwawl a ry drwy wydr ei wên.' dr-dr *ydr-ydr*
'A cherdd am y ddager ddu,' &c. dd-dd *erdd-erdd*

5. Sain ddisgynedig, fel hyn,
'Codwyd cynnwrf, twrf terfysg.' c-c-trf-trf *wrf-wrf*
'Llŵch, llêch, llorf, corf, torf, terfysg.' ll-ll-ll-trf-trf *orf-orf-orf*

6. Sain ddyblyg, fel hyn,
Pôr, dór, dâr, gwanar gwinau.' dr-dr-gn-gn *or-or-ar-ar*
Arall yn unsillafog, fel hyn,
'Cŵyn, brŵyn, braw, a ddaw ryw ddydd.' br-br-dd-dd *wyn-wyn-aw-aw*

Cynganedd lusg hefyd a ffurfir o'r gynganedd sain, drwy lusgo rhyw sillaf yn y fraich i unodli â'r nesaf at y brifodl, yr hòn a fydd bôb amser yn unsillafog. Llusg lefn sydd fel hyn,
'Tylwyth tęg ar lawr cegin.' *ęg-eg*

Llusg o gyswllt, fel hyn,
'Hîr adwyth dŵg ddiffrwythder.' *wythd - wythd*
Llusg o gyswllt ddyblyg, fel hyn,
'Hîr adwyth dry'n ddiffrwythdra.' *wythdr-wythdr*
Llusg cysylltgudd, fel hyn,
'Clwyfo dyn wnaeth y codwm.' *od-od*

AM GYNGANEDDION CYMMYSGEDIG.

Gellir gosod amryw gynganeddion ar yr un fraich; a hynny'n orchestawl, yn ôl barn yr athrawon pencerddawl, fel y canlyn,
Seingroes rywiog, sydd fel hyn, [*ydd-ydd*
'Dydd mawr bydd diddim wyr beilch.' d dd m r b - d dd m r b
'Aeth hiraeth i ŵyth Harri.' th r - th r *aeth-aeth*
Seingroes o gyswllt, fel hyn,
'Y fun iawnaf un onest.' f n n - f n n *un-un*
'I le drwg, loywed yr awn.' l d r - l d r *ed-ed*
Seingudd o groes gyswllt ewinog, fel hyn,
'Tro di'r anmod drud rwymwaith. t r d r m - d d r d r m *t-dd*
Seingroes ddyblyg, ddychweledig, fel hyn, [*od od*
'Llês rhês rhydd 'wllys Rhŷs rhawg.' ll s rh s rh - ll s rh s rh
Seingroes ddyblyg gadwynog, fel hyn, [*és-ês-ys-ŷs*
'Hŷll rîth ar wŷll, rhaith ar wàn.' ll r th r - ll r th r *yll-yll-ar-ar*
Seingroes ddisgynedig, fel hyn,
'Gŵr fal tŵr gorfoel terwyn.' g r f l t r - g r f l t r *ŵr-ŵr*
Seingroes o gysswllt, gadwynog, ddisgynedig, fel hyn,
'Llawn faith gell iawn fŵth gwylliaid.' ll n f th g ll - n f th g ll
Seindraws, sydd fel hyn, [*awn-awn*
'From aeth, trwm alaeth tra mawr, t r m - t r m *aeth-aeth*
Seindraws o gyswllt ewinog ddisgynedig, fel hyn,
'Craig a thŵr yw gwraig groywgàr.' c r g - gg r g *c-gg aig-aig*
Trawslysg ddisgynedig, fel hyn,
'Lle'r ai'r morllo a'r ëog.' ll r - ll r *e-ë*

AM ODDEFIADAU AFREOLAIDD YN MYSG Y CYNGANEDDION.

1. Goddefir i'r gydsain *n*, yn unig, fod heb un arall i'w hateb, pan fo hi yn llythyren gyseiniu, neu wreiddiol, mewn cynganedd groes neu draws, fel hyn.
'Ni ddaw orig ddaiarol.'

2. Y llythyren *h*, ni chyfrifir yn berffaith gydsain yn mysg y cynganeddion, ac ni thyr na chynganedd na chymmeriad; eithr goddefir ei thoddi er mwyn synwyr, &c. fel hyn,
'Rhôdd *h*ywerth yw rhwydd awen.'

3. Goddefir i un gydsain ateb i ddwy o'r un rhyw, pan fyddont ynghyd, neu yn dyfod yn unsain, fel hyn,
'Ca*ll*, *ll*ôn wyt, er co*ll*i nerth.' &c.

Goddefir hefyd i gydsain feddal ateb un galed, y'mhlethiad cynganedd, yn ddifeius, yr hyn a ddëallir yn well wrth engrafiau cynganeddion ewinog, &c. Hefyd *g* i ateb *c*, yn y cysylltiad *ac*, fel hyn,
'Ac yn dy fedd gwyn dy fŷd.'

4. Y llafariad *w*, a gyll ei grym ar ôl pob llythyren dawdd, fel hyn,

'Llwyn ar le*thr* yn llawn ple*thwrys*g.'

Hefyd y geiriau hyn, *galw*, *enw*, *marw*, *hoyw*, *gloyw*, *croyw*, &c, y rhai ynghyd ag aneirif o'r fâth, a gyfrifir yn unsilliaid, fel hyn,

'Ymwahan loyw ddyfr croyw crŷch.' *D. G. i Ddyfi.*

Ac weithiau arferir hwynt yn ddwy-sill, fel hyn,

'Rhag fy ngalw, salw swydd.' *D. G.*

Am Gymmeriadau.

Cymmeriad, yw gosod pob braich o'r penill i gyd ateb a'r gyntaf.

Dau brif gymmeriad sydd; sef, cymmeriad disgyblaidd, a chymmeriad pencerddiol.

Dau gymmeriad disgyblaidd sydd; sef, cymmeriad llythyrenol, a chymmeriad synwyrol. Cymmeriad llythyrenol, yw cadw'r unhyw lythyrenau yn nechreu breichiau, a hyny drwy'r penill, fel hyn,

'Dryllio main, drwy allu mawr;
Diwres dwyrain dros deirawr.
Dydd rhyfedd, dydd oer hefyd,
Diwres heb wedd dros y bŷd.' *Rhŷs Cynwal.*

Llafariaid hefyd, er na fyddont o'r un rhyw, a wnant gymmeriad llythyrenol difeius, fel hyn,

'A ro gam i wraig o Iâl
E ry Duw rai a'i dial.' *L. Môn.*

Cymmeriad synwyrol, yw pan gyflawnir synwyr y fraich gyntaf yn yr ail; eithr heb yngais am gymmeriad llythyrenol, fel hyn,

'Odid cael yn ddî adwyth,
Na dŷn na phren yn dwyn ffrwyth.' *G. Ll.*

'Y gŵr marw, e gâr morwyn
Ddaear dy fêdd er dy fwyn.' *T. Aled.*

Cymmeriad pencerddiol, yw pan fo rhyw orchestwaith arno mwy nag ar y ddau uchod. Dau ryw gymmeriad pencerddiol sydd; sef cymmeriad llythyrenol synwyrol, a chymmeriad cynganeddol cyfochrog. Cymmeriad llythyrenol synwyrol, yw bod y ddau gymmeriad disgyblaidd yn un, fel hyn,

'Lle bo'r gamfa fêra fach
Llymsi fyddaf yn llamsach.' *D. G.*

'Ac aml gôr y cerddorion
A ganant a thant a thôn.' *D. G.*

Cymmeriad cynganeddol cyfochrog, yw bod geiriau lliaws-sill yn nechreu y breichiau; ac yn cyfochri yn unodl, mewn accen ddeichafedig drwy'r mesur, fel hyn,

'Mynnu 'rwyd wnnu euraid annedd;
Mynnu estynnu oes a dawnedd:
Mynnu esgynnu osawg wnnedd;
Mynnu cytynnu mewn cyttunedd;
Mynnu ennynnu uniawnedd: ffynnu,
Mynnu dirynnu da wrthonedd.' *Sim. Fychan, i Piers Mostyn.*

Ond ni chedwir cynmeriad llythyrenol ynddo bôb amser, megys,

'Mannau mwyn am win a mêdd;
Tannau *mirvsig*, tôn maswedd.' *Gwilym Ganoldref.*

D. S. Gellir plethu mâth arall o gynmeriad pencerddiol, drwy osod parth cysefin y fraich i ateb y rhàn olaf o bob braich trwy'r mesur, a hyny ar y groes gynganedd ddychweledig; yr hyn a elwir cynmeriad cynganeddol llythyrenol, fel hyn,

'Wyd Awdwr diwyd ydyn,
Iôn didwyll, hyny dwedwn,
Nid odiaeth un, od adw'en,
Ond ydoedd o waed Odwin.' *Gwilym Ganoldref.*

Digonol yw yr hyn a ddywedpwyd uchod (am y cynmeriadau, ac am y cynganeddion a'u rhywiau aneirif) i annog coleddwyr barddoniaeth i olrhain cyngan-gerdd yr awduron pencerddiol, &c.

Am y Mesurau.

Mesur yw rhifedi nodedig o sillafau mewn braich, neu o freichiau mewn penill. Rhif y sillafau mewn braich a elwir cyhydedd, o'r hon yr adeiladir yr holl fesurau sefydledig.

Saith ryw gyhydedd sydd, y rhai a elwir Colofnau cerdd dafod, ac a fesurir fel y canlyn,

1. Cyhydedd fêr, o'r hon y cenir Cywydd deuair fyrion, &c. fel y canlyn,

'Croyw fir cry fêdd.' *Sim. Fychan.* 4

2. Cyhydedd wen drosgl, yr hon a fydd mewn *Cyhydedd hir, &c. fel hyn,

'Sant, wiwsant Iesu.' *Gro. Owen.* 5

3. Cyhydedd lâs, yr hôn a fydd yn niwedd Clogyrnach, &c. fel hyn,

'Uchenaid a chwynion.' *Gro. Owen.* 6

4. Cyhydedd gaeth, o'r hon y cenir Cywydd deuair hirion, &c. fel hyn,

'Duw a gyfyd ei gofiwr.' *Huw Arwystl.* 7

5. Cyhydedd draws, o'r hon y cenir †Cyhydedd fêr, &c. fel hyn,

Cyfan chwiliwr cefn a chalon.' *Gwilym Ganoldref.* 8

6. Cyhydedd drosgl, o'r hon y cenir Gwawdodyn, &c. fel hyn,

'Nèn fawr uchel yn y nêf wreichion.' *L. Morganwwg.* 9

7. Cyhydedd hir, o'r hon y cenir Hîr a thoddaid. fel hyn,

'Fal grawn fal adar fal gro neu flodau.' *T. Aled.* 10

D. S. Mae dwy fâth o gyhydeddion eraill, y rhai a elwir, y Gyhydedd fèraf, a'r Gyhydedd hwyaf: y Gyhydedd fèraf a fesurir o dair sillaf, ac a arferir yn niwedd Gorchest y beirdd yn unig; a'r Gyhydedd hwyaf a fesurir o un sillaf ar ddeg, ac weithiau o ddeuddeg (yr hyn nid yw amgenach na Hupynt byr) ac a arferir mewn Hîr a thoddaid; eithr yn drosgl ac amgylchynedig.

*†Dealler mai Cyhydedd mesur, ac nid Cyhydedd braich a feddylir wrthynt.

Bellach, cyn dechreu dosparthu y mesurau, buddiol yw gosod i lawr y rhëolau neilltuol a berthyn iddynt, y rhai sydd fel y canlyn,

1. Pob odl, os bydd hi'n unrhyw a'r odl gysefin, a weinydda yn mhob rhai o'r mesur u; oddieithr mewn proest.

2. Pob cynganedd a weinydda yn mhob mesur; oddieithr Cadwyn fêr, a gorchest y beirdd, y rhai a genir ar y groes gynganedd yn unig: ond cynganedd lusg ni chenir ar y fraich olaf o unrhyw fesur.

3. Pob cymmeriad a weinydda yn yr holl fesurau.

Tri rhyw brif fesur sydd; sef Englyn, Cywydd, ac Awdl; ac o'r tri hyn y ffurfir pedwar mesur ar ugain cerdd dafod, y rhai a genir, ac a ddosperthir fel y canlyn.

Am Englynion.

Englyn neu Ynglŷn, sydd fesur a genir weithiau ar ei ben ei hun, ac weithiau mewn Awdl, &c. Deuryw Englyn sydd; sef, Unodl, a Phroest. Tri rhyw Englyn unodl sydd; Unodl union, Unodl cyrch, ac Unodl crwca.

1. Englyn Unodl union, a fesurir o bedair braich, ac a gyfansoddir o ddau fesur ynghyd; sef Toddaid o un sillaf ar bymtheg yn y ddwy fraich gyntaf, (y rhai a elwir paladr,) a dwy fraich ar y gyhydedd gaeth, fel Cywydd deuair hirion, ynglŷn ag ef, (y rhai a elwir esgyll,) ac yn cyd odli oll. Y fraich gyntaf a fydd bôb amser yn ddeg sillaf, drwy y gair cyrch; ac os cynganedd sain a fydd, rhaid i'r rhagwant, sef yr ail sain, neu orphwysfa, fôd yn y bummed sillaf; a gellir gosod y brifodl naill ai yn y chweched, seithfed, wythfed, neu y nawfed sillaf; a'r gweddill a fydd y gair cyrch, yr hwn a atebir yn yr ail fraich, naill ai yn unodl, yr hyn a elwir cyrch awdl, ai ar ddull proest, yr hyn a elwir cyrch gynghanedd, fel hyn,

'Agor dy drysor, dod rân,----trwy gall-wedd, 10
Tra gellych, i'r truan; 6
Gwell ryw awr golli'r arian, 7
Na chau'r gôd, a nychu'r gwân.' 7

Parch. Ieuan Brydydd hir.

Arall, o gyrch awdl, fel hyn,

'Llawer brôn am hon ym Mhenardd----a hyllt, 10
Ail Esyllt wiw lwys-hardd: 6
Llefain yw berf ofer-fardd; 7
Llwyr wae, ni chwarae ni chwardd.' 7

D. G. Mar. Angharad hael.

Gellir canu paladr Englyn heb na gwant na rhagwant ynddo; sef naill ai gyd â chroes, neu draws gynganedd, ai gyd â chynganedd lusg; gellir hefyd osod gorphwysfa yn y bumed sillaf, os na fydd hyny yn cyfyngu y synwyr, megys,

Nid dwfn yw fy neigr, nid di-fud----fy llêf, 10
Am fy llyw cadarn-ddrud; 6
Nid diboen na'm attebud; 7
Nid hawdd ymadrawdd a mûd.' 7

D. G. Mar. Ll. o Emlyn.

'Myned i'r pridd yn ddiddadl,----yr ydwyf, 10
Heb rodio mwy'n drwyadl; 6
Gwèn yw'r ên,——gwàn y'w'r anadl; 7
Brau yw'r einioes,—nid oes dadl.' *R. Ddu o Feirion.* 7

2. Englyn Unodl cyrch a fesurir o bedair braich ar y gyhydedd gaeth; y ddwy gyntaf yn cydodli a'u gilydd, un yn unsill, a'r llall yn lliaws-sill, fel esgyll Unodl union; a'r drydedd yn odl amryfal, ac a gyrcha sillaf i'w hateb o ganol y bedwaredd, pen yr hon a unodla gydâ'r paladr, fel hyn,

'Nodawl wyt, a ffynnadwy; 7
Ni bu'n f'oes neb enw fwy; 7
Nerth drud CASWALLON wrth drin, 7
Neu EDWIN a wnai adwy.' *Sim. Fychan, i Piers Mostyn.* 7

3. Englyn Unodl crwca, a fesurir o bedair braich; y ddwy fraich gyntaf fel paladr Unodl cyrch, a Thoddaid o un sill ar bymtheg ynglŷn ag ef, ac yn cydodli oll, megys pe cenid Unodl union yn y gwrthwyneb; a rhaid i'r gosodiad yn y fraich olaf fod bob amser yn unodli a'r gair cyrch, fel hyn,

'Braidd yn fyw, bereiddwen ferch; 7
Briw digwyn, bradawg annerch; 7
Briwiad, osodiad fy serch----ar loer gwlâd, 10
Brâd anfad,——bryd wenferch!' *R. Meredydd.* 6

Englyn Proest, sydd fesur heb unodli fel y lleill, a dau ryw sydd iddo; sef Proest cyfnewidiog, a Phroest cadwynodl.

4. Proest cyfnewidiog, a fesurir o bedair braich ar y gyhydedd gaeth; drwy gadw yr un cydseiniaid yn niwedd pob braich; eithr bydd y llafariaid yn amryfal, fel hyn,

'Ei fawr boen, ddiofer beth, 7
A gwir lês agorai lith: 7
Nid oes ail fugail o'i fâth, 7
A thra bo dydd ni bydd bŷth.' 7
E. Morys, Mar. Parch. Rhys Foulks.

Gellir ei estyn i chwe braich neu saith, sef y llafariaid oll, drwy gadw yr un cydseiniaid yn niwedd y breichiau.

Gellir canu proest llafarog hefyd, drwy ei derfynu mewn llafariaid amryfal, fel hyn,

'Dilys iawn yw RHYS yn rhoi 7
Dirlwydd o ffrŵd eurwledd ffriw; 7
Diwyg ei Lŷs dug a'i law;—— 7
Dogn i bawb,——digon i'w byw.' N. 7

5. Proest cadwynog a fesurir o bedair braich ar y gyhydedd gaeth, fel Proest cyfnewidiog; a'r gadwynodl yw bôd prifodl y fraich gyntaf yn ateb i'r drydedd, a'r ail i'r bedwaredd, fel hyn,

'Gair ysprydol fywiol faeth; 7
Trwm air Duw tra-mawr a doeth; 7
Fal y llif o fel a llaeth; 7
Fal y pair o ufel poeth.' *Jonathan Hughes.* 7

Arall gyd â llafariaid, fel hyn,

'Ca'dd ei wraig bêr drymder draw, 7
Am ei gwaraidd, lariaidd lyw; 7

A'i blant hefyd, frwynfryd fraw—— 7
Odid un fath dâd yn fyw.' *Gro. Owen, Mar, I. Owen.* 7

Am Gywyddau.

Tri rhyw fesur Cywydd sydd, sef Cywydd deuair, Cywydd llosgyrnog, ac Awdl gywydd. Dau ryw Gywydd deuair sydd; sef Deuair fyrion, a Deuair hirion.

6. Cywydd deuair fyrion, a fesurir o ddwy fraich ar y gyhydedd fêr; y naill yn unsill, a'r llall yn lliaws-sill, ac yn cydodli, fel hyn,

'Cynnal cwynion, 4
O dir i dôn.' *Gro, Owen, Mar. I.. Morys.* 4

7. Cywydd deuair hirion, a fesurir o ddwy fraich ar y gyhydedd gaeth; ac yn cydodli a'u gilydd, megis deuair fyrion, y naill yn unsill a'r llall yn lliaws-sill, fel hyn,

'Hyspys y dengys y dyn, 7
O ba radd y bo'i wreiddyn.' *T. Aled.* 7

8. Cywydd llosgyrnog, a fesurir o ddwy fraich, neu ragor, ar y gyhydedd draws, yn cydodli a'u gilydd; a braich o losgwrn ar y gyhydedd gaeth a'i chanol yn unodli gyd â diwedd y breichiau cyntaf, a'r diwedd yn odl amryfal, ac felly yn arwain yr awdl trwy'r mesur, fel hyn,

'O ran dy serch, arwain da sôn, 8
I'th deg annerch, a'th dai gwynion; 8
Dy ddynion a diddanedd; 7

Ac yn atebol iddo, fel hyn,

O Gaer a'i phont, gorhoff hawg, 8
Dy air a fyn hyd Ryfoniawg, 8
Iôr doniawg, aur adanedd.' *Sim. Fychan, i Piers Mostyn.* 7

9. Awdl gywydd, a fesurir o ddwy fraich ar y gyhydedd gaeth; a bydd prifodl y fraich gyntaf yn unodli a'r orphwysfa yn yr ail fraich, a'r diwedd yn odl amryfal; ac felly yn arwain yr awdl trwy'r mesur, fel hyn,

'Yn ein plith o enau'n plant, 7
Dy ogoniant, deg Wiwner; 7

Ac yn atebol iddo, fel hyn,

Ac o enau'r plant gweiniaid, 7
Dy nerth a wnaid, dawn wyrth Nêr.' *Gwilym Ganoldref.* 7

Gellir canu y fraich olaf i awdl gywydd ar y gynganedd groes rywiog, a'r orphwysfa yn amryfal accen i brifodl y fraich gyntaf, fel y gellir ei droi yn gywydd deuair hirion, fel hyn,

'Llwyth Edwin oll yw'th hadyd; 7
Llawn dywys yd,—llin dy sêdd.' *S. Fychan, i P. Mostyn.* 7

Am Awdlau.

Awdl, yw caniad o amryw fesurau, yn ol yr arfer sathredig; eithr wrth gerdd y tri Phrif-fardd, a dull Cynddelw, ni ddylai ragor nag un mesur fod ar yr un caniad; ac os hir fyddai, mae'n rhydd newid y brifodl.

Wyth mesur Awdl sydd; sef Toddaid, Gwawdodyn, Cyhydedd, Hyppynt, Clogyrnach, Cyrch a chwta, Cadwyn fesur, a Gorchest y beirdd.

10. Toddaid, sydd fesur o ddwy fraich, yn cydodli a'u gilydd, a gair toddedig, o un i bedair sillaf, yn dylyn y brifodl, yn niwedd y fraich gyntaf, yr hwn a gyrcha sillaf o ganol yr ail fraich i unodli ag ef. Gellir mesur y fraich gyntaf naill ai o'r gyhydedd lâs, ai o'r gaeth, ai o'r draws, ai o'r drosgl, (a'r gweddill yn air toddedig hyd y ddegfed sillaf) ac os cynganedd sain a fydd, rhaid fod y rhagwant yn y bumed sillaf; ond yr ail fraich a fydd bob amser o'r gyhydedd drosgl, mewn Toddaid ar ei ben ei hun, fel hyn,

'Terfyn oes sydyn osododd----Duw mau 10
Ar yr ammodau'r awr y mudodd.' 9

E. Morys, Mar. Parch. R. Foulks.

D. S. Pan fydd Toddaid yn gyfansawdd â mesur arall, ni chenir y fraich olaf ar y gyhydedd drosgl bob amser; eithr yn amryfal,—sef weithiau o chwesill, fel mewn paladr Englyn unodl union, &c. ac weithiau o ddegsill, fel mewn Hir a thoddaid.

11. Byr a thoddaid, a fesurir o Doddaid un sill ar bymtheg yn mlaen, fel paladr Englyn unodl union; a phedair braich o'r gyhydedd draws, y rhai a derfynir gydâ Thoddaid o'r unrhyw, fel hyn,

'Plethu, a medru ymadrodd-----praw-doeth; 10
Prydain a'i canmolodd; 6
Pawl a'i dalent, pa le dylodd? 8
Perl hoyw orchest, pur lewyrchodd; 8
Para cynnyrch, pêr y canodd; 8
Pennaeth iawn-farn, pwy wnaeth unfodd? 8
Parch a dawn cyfiawn cafodd,----mawryddig, 10
Pendefig, pan dyfodd.' *E. I. i'r Parch. W. Wyn.* 6

Os cenir ychwaneg nag un penill o'r mesur hwn ynghyd, nid rhaid ond un Toddaid rhwng pob pedair braich.

12. Hir a thoddaid a fesurir o bedair braich ar y gyhydedd hir, a Thoddaid o ugain sillaf ynglyn ag ef, ac yn cydodli oll, fel hyn,

'Llwydd i chwi eurweilch, llaw Dduw i'ch arwedd, 10
Dilyth eginau da lwythau Gwynedd; 10
I yrddweis y Dehau urddas a dyhedd; 10
Rhâd a erfyniwn i'r hydr wiw fonedd; 10
Bro'ch tadau, a bri'ch tudwedd----a harddoch; 10
Y mae wŷr ynoch emmau o rinwedd.' 10

Gro. Owen, i'r Cynmrodorion.

Gwawdodyn, sydd fesur o amryw rifedi o freichiau ar yr un gyhydedd; ac o honaw y mae dau ryw; sef Gwawdodyn byr, a Gwawdodyn hir.

13. Gwawdodyn byr, a fesurir o ddwy fraich ar y gyhydedd drosgl; a Thoddaid ynglyn ag ef, ac yn cydodli oll, fel hyn,

'Ni phery Onnen a'i pheiriannau 9
Dan d'ewin ddyrnod ond yn ddarnau; 9
Ewinawg osawg asau,----braich a bron, 10
A nyddai linon yn ddolennau.' *T. Aled. i Syr Rhys Tomas.* 9

14. Gwawdodyn hir, a fesurir o bedair braich ar y Gyhydedd drosgl; ac a derfynir gyd â Thoddaid, megys Gwawdodyn byr, fel hyn,

'Daear a chwiliodd drwy ei chalon, 9
Chwalai, a chloddiai ei choluddion; 9
A'i dewis wythi, meini mwynion: 9
A thew rês euraid ei thrysorion, 9
A'i manylaf ddymunolion—bethau; 10
Deuai i'r golau ei dirgelion.' *Gro. Owen, Mar. L. Morys,* 9

Cyhydedd mesur, fal ei gelwir, sydd o dair rhyw; sef Cyhydedd fèr, Cyhydedd hir, a Chyhydedd naw-ban.

15. Cyhydedd fer, a fesurir o bedair braich ar y gyhydedd draws; ac yn cydodli a'u gilydd, fel hyn,

'Ail i farrug neu lifeiriant, 8
A gwyrdd lysiau gardd a lasant, 8
Yw oes dynion, os adwaenant; 8
Fel ia unnos y diflannant.' *Jonathan Hughes.* 8

Arall yn proestio.

'I'r Mâb cyfarchaf, rhwyddaf Rhên; 8
I'r Tâd, a'r Yspryd gloyw-bryd glân; 8
Neud mau yw cofiau eu cyfun; 8
Nid rhaid i'm ammau llyfrau llên.' *Taliesin.* 8

16. Cyhydedd hir, a fesurir o ddwy fraich ar y gyhydedd wen drosgl; a braich o'r gyhydedd drosgl ynglŷn, a'r bumed sillaf o hòno yn unodli â phrifodl y fraich gyntaf, a'r diwedd yn odl amryfal, ac yn arwain yr awdl trwy y mesur, fel hyn,

'Dedwydd ddydd a ddaw, 5
Gofid, llid, gerllaw, 5
A dry yn hylaw dirion helynt; 9

Ac yn attebol iddo, fel hyn,

Ni chawn, digllawn daith, 5
Glywed, gweled gwaith 5
Nŷch angau hirfaith na chynghorfynt., *D. Ddu, Eryri.* 9

17. Cyhydedd naw-ban, a fesurir o bedair, neu o chwe braich ar y gyhydedd drosgl, yn cydodli oll, fel hyn,

'Duw oedd y Gair, o duedd gwrol, 9
Oedd yn y dechrau'n wyrthiau nerthol: 9
Y Gair iawn addas gwirioneddol, 9
A Duw'n Dâd iddo; dawn dedwyddol.' *Jonathan Hughes.* 9

Hypynt, sydd rydd i'w ganu naill ai yn gynganeddol, ai yn gyfochrog; ac iddo mae dau ryw, sef Hupynt byr, a Hupynt hir.

18. Hupynt byr a fesurir o ddwy fraich; y gyntaf ar y gyhydedd fèr; a'r ail o'r gyhydedd draws, a'r bedwaredd sillaf o honi yn ateb i brifodl y fraich gyntaf, a'r diwedd yn arwain yr awdl trwy y mesur, fel hyn,

'Iaith dda foesol, 4
Iaith lên oesol, Iaith hynawsedd, 8

Ac yn atebol iddo, fel hyn,

Iaith o'r benna, 4
Iaith o'r hyna, Iaith a rhinwedd.' *Rhys Morgan.* 8

19. Hupynt hir, a fesurir o dair braich; y ddwy gyntaf ar y gyhydedd fèr, a'r drydedd o'r gyhydedd draws; ac a genir fel Hupynt byr, megys,

'Mawr ei radau, 4
Mydr ganiadau, 4
Myfyriadau, mwyfwy rediad; 8

Ac yn atebol iddo, fel hyn,

Mwyn dyniadau, 4
Mwys blethiadau, 4
Cynnwysiadau, cain osodiad.' *Gwilym Ganoldref.* 8

20. Clogyrnach, a fesurir o bum braich; y ddwy gyntaf ar y gyhydedd draws, ac yn cydodli; a'r ddwy ganol yn odlau anryfal, ar y gyhydedd wen drosgl; yr olaf ar y gyhydedd lâs, a'r drydedd sillaf o honi yn unodli gyd â diwedd y breichiau canol, a'r diwedd yn cydodli â'r ddwy fraich gyntaf, fel hyn,

'Fy iaith gywraint fŷth a garaf, 8
A'i thêg eiriau, iaith gywiraf, 8
Iaith araith eirioes, 5
Wrol, fanol foes, 5
Er f'einioes, a'r fwynaf.' *Gro. Owen.* 6

21. Cyrch a chwta, a fesurir o wyth braich ar y gyhydedd gaeth; y chwe braich gyntaf yn cydodli; a'r seithfed yn odl anryfal, ac yn unodli â'r orphwysfa yn y fraich olaf, megys Awdl gywydd, a'r diwedd yn cydodli gydâ'r breichiau dechreuol, fel hyn,

'Erfai yw'r llŷs ar fôr llòn, 7
Hyn o lês a wnai Leyson; 7
E gair gwrês yn y gaer gròn, 7
E gair seigiau gwresogion; 7
A'r ceirw fry o barcau'r fròn, 7
A'r ëogiaid o'r eigion, 7
A gwenith, a phob gwinoedd, 7
A'r tiroedd, a'r môr tirion.' *Lewys Morganwg.* 7

Cadwyn fesur, yw penill lle cadwyner y cynganeddion yn orchestawl; ac iddo y mae dau ryw; sef Cadwyn fyr, a Thawddgyrch cadwynog, neu gyfochrog.

22. Cadwyn fyr, a fesurir o bedair braich ar y gyhydedd draws, yn cydodli bob yn ail fraich, fel Proest cadwynog, ac yn cynganeddu bob pedair sillaf drwy'r fraich; a'r orphwysfa, sef y bedwaredd sillaf o bob braich yn unodli gydâ diwedd y fraich arall, fel hyn,

'Pur-lân afal, Perl y nefoedd, 8
Da iawn ydoedd, di anwadal; 8
Gair i gynnal geiriau gannoedd, 8
O'r eithafoedd, araith ddyfal.' *Jonathan Hughes.* 8

Gellir hefyd ei gynganeddu bob yn ail sillaf o'r fraich, a hyny yn orchestawl, yn ôl defod yr hèn feirdd.

23. Tawddgyrch cadwynog, a fesurir o bedair braich ar y gyhydedd draws, ac a genir fel Cadwyn fyr gyfochrog; a gosodir Hupynt hir cyfochrog yng'ŷn âg ef, i gyflawni'r mesur, a'r brif odl yn unsain gyd â sillaf gyntaf y Tawddgyrch, fel hyn,

'Och arfeddyd wych wir fuddiol 8
Er nef. fythol, wŷr na fethoch; 8
Mi rof ennyd amryw fanol, 8
Ddiwyd rasol, weddi drosoch; 8
Mewn serch brawdol, diwahanol, 8
Hoyw-wyr doniol hir y d'unoch; 8
Cymru'n hollol o ddysg weddol, 8
Lin olynol, a lawn lenwoch,' *Gro. Owen, i'r Cynmrodorion.* 8

Ond arferir ei ganu weithiau, heb gadwyno y sillaf gyntaf gyd â phrifodlau y mesur.

Arall o hên ddull gŵrain, fal y canai yr hên feirdd; ac ynddo y mae godidawgrwydd gorchestwaith, a chadwyn ddi dòr drwyddo, fel hyn,

'Dolur rhydrwm! dramawr benyd, 8
Boenau dybryd, ebrwydd ddidol: 8
Dwl Llŷn a llwm, llai mael Gwyndyd 8
Gan doi gweryd gwr rhagorol: 8
Dirfawr adfyd, odfa ddyfryd 8
Dilifrif oergryd, fyd anfadol; 8
Dygn yw edryd, adrodd ennyd 8
Ddwyn eu gwynfyd cyd, un cedol!' 8
Gro. Owen, Mar. I. Owen.

24. Gorchest y beirdd, a fesurir o dair braich; y ddwy gyntaf ar y gyhydedd fèr, yn cydodli a'u gilydd; a'r olaf ar y gyhydedd gaeth, a'r bedwaredd sillaf yn unodli, yn gydbwys, gyd â diwedd y breichiau cyntaf, a'i diwedd yn arwain yr awdl drwy'r mesur; a rhaid i'r ail sillaf o bob braich unodli yn yr un modd, fel hyn,

'Y rhwydd air hir, 4
O'i chwydd, och wir, 4
I'w swydd a'i sir y sydd saeth; 7

Ac yn atebol iddo, fel hyn,

Ei dwyn o'i dydd, 4
Fm fwyn, i'm fydd 4
Yn gŵyn a gwŷdd ugain gwaeth.' 7
D. ab Edmund, Mar. merch Rhys Wyn o Fôn.

BEIAU GWAHARDDEDIG CERDD DAFOD.

1. Twyll awdl, sef pan fyddo *u* ac *y* yn cydodli yn niwedd breichiau, fel hyn,—'Hawdd i lêsg wneuthur esg*us*,
Cŵyn diau brawf, rhag gwneud br*ys*.'

2. Twyll gynghanedd, yr hyn sydd amryw ddull. Twyll gwreiddgoll fel hyn,—'*D*iau gelyn a goeliais.'—'Dirfaw*r* gŵyn, darfu y gwir.'

Twyll pengoll fel hyn,—'Galwaf ar Dduw Naf, Nef-*d*eyrn.'—'Ni roddaf sên i'm Gwen-*f*erch.'—'Darfu y gwir, dirfaw*r* gŵyn.'

Twyll sain sydd fel hyn,———'Trymw*ae* am waith g*au* a geir.'—'Nid oes d*ŷn* fel y f*ún* fau.'—'Mae fy na*bl* heb ana*dl* byw.'

*Mâth arall o dwyll sain,—'Mae bane*r* Lloeg*r* yn lliwgoch.'——
——'Aed Beli*al* a'i t*agl*, o fyd.'——'Ar ben morw*yn* gw*ydn* y'w'r gwallt.'
——'E ry'r aw*yr* drwy w*ydr* wawl.'——'Dyn seg*ur* b*udr* enbydus.'
Twyll llusg fel hyn,——'Daw d*ydd* na thâl ymgúddiaw.'

3. Gormod odlau, sef pan fyddo un, neu ychwaneg, o'r gorphwysfäau yn unrhyw a'r brifodl, megys,———'Clyw*ais* gân, burlan berl*ais*.'——
——'Angylion, dynion *a* da.'———'Rhinw*edd* cân yw cyngan*edd*.'

4. Proest i'r awdl, sef pan fyddo'r brif orphwysfa, mewn cynganedd groes neu draws, yn cyd broestio a'r brifodl, ac yr un gyfri o sillafau, megys,——'Mwy na mi*l* am uno maw*l*.'——'Llu nefoe*dd* oll yn ufu*dd*.'
Proest llafarog fel hyn,——'Llon yw'r ll*u*, a llawn yw'r lle.'
Haner proest fel hyn,——'Mwy o iawn i*t*' am a wnae*d*.'

5. Dybryd sain, sef pan fyddo'r orphwysfa gynganeddol yn cydseinio a'r brifodl, megys,——'Gwr cyfiaw*n*, uniaw*n* anian.'——'Arwy*l* oer hwy*l*, ar ei hô*l*.'

6. Camosodiad, sef yw hyny pan fyddo'r cydseiniaid wedi eu trawsosod bendraphen yn y fraich, megys, 1 2 3 4 1 3 2 4
'*M*awr iawn *gl*ais *min* awr o *gl*wy.'

7. Gwest awdl, sef pan fyddo'r un gair ddwywaith yn mhrif-odlau yr un Englyn; ac a elwir felly am fod yr unrhyw awdl yn tramynychu i'r un Englyn, megys gwestai heb wahoddiad, fel hyn,

'Rhydd cant eu moliant am *aur*——a gemau,
O gymysg liw rhuddaur;
Hynod yw pawb am hen-aur;
Gwyr yr oes a gâr yr *aur*.'

8. Trwm ac ysgafn, sef pan fyddo y seiniau neu y prif-odlau yn annghydbwys a'u gilydd, megys,——'Êr sèn a phob gwên a gŵg.'

'Trawsedd, a gwagedd, a gw*yn*——a ddygodd
Yr eiddigus elyn;
Ond trefnwyd, rhoddwyd er h*yn*,
Ymwared rhag y mawr-wyn.'
'Amgylchu M*ôn* mae'r tò*n*au.'

9. Leddf a thalgron, megys, {'Oer yw gwawr eira gor*wyn*
Ar riw, ac ar lasliw l*ŵyn*.'
Arall mewn sain, fel hyn,——'Rhyw ffrew*yll* yw t*ŵyll* i ti.'

10. Crych a llyfn, sef pan fyddo mâth o gamosodiad yn y brifodl i ateb yr orphwysfa bènaf, megys,——'Och lâdd y d*ryw* â chlêdd *dwrn*.'
Arall yn y sain, fel hyn,——'Oer yw nghri tan *fri* tèn *fa*rn!'

11. Ymsathr odlau, sef pan fyddo rhan o sillaf yr orphwysfa yn sathru ar y brifodl, megys,——'Wi am gŷtf h*wn* ymgoffh*awn*.'
Arall mewn llusg, fel hyn,——'Nid gweddus Teyrnedd heb ddeddf.'

*Rhoddwyd y rhai'n i lawr er mwyn y rhai sydd arferol o estyn sain y geiriau canlynol——*Lloegr, Lloeger; magl, magal; gwydn, gwydyn.* &c.

12. Garllaesder, neu Garnorddiwes, sef pan fyddo dwy brif-odl liawssill yn ateb eu gilydd, megys,

'Dyn curiawl yn dwyn cariad,
O wŷn ystig yn wastad.'

13. Garfyrder, neu Tîn âb, sef pan fyddo dwy brif-odl yn unsill yn ateb eu gilydd, megys,

'Tŷn yw fy mriw tan fy mrôn;
Bûn o hyd a boenai hon.'

14. Rhy debyg, sef pan fyddo yr orphwysfa a'r brif-odl mor debyg i'w gilydd, fel na bydd ond cydsain neu ddwy yn y diwedd, i'w rhwystro i gydateb yn ddwbl, megys,—'*Cerais* bob rhai o'm *ceraint*' Arall mewn cynganedd sain, fel hyn,—'Eirian wyt *howylan hoywlanc*.' 'Dichon fod anfryw yn debyg, ond heb fod yn waharddedig, megys,

'Nid yn nghwmni un unig,
Ond yn nghwmni tri y trig.'

15. Tòr mesur, sef pan fyddo mwy neu lai o sillafau mewn braich neu benill, na'r hyn sydd ofynol with y rheolau sefydledig, megys,

'Gormod o bechod, a'i boen,——ei wae 9
A'i wewyr mawr echrys-boen, 7
A guria enw gorhoen 6
Os gŵr ni chrêd——esgyrn a chroen.' 8

Nid tòr mesur yw pan derfyno gair mewn llafariaid, a dyfod llafariad unigol arall yn un-sain âg ef yn yr un fraich, fel hyn,

'Gobeithiaf daw yr awen
Gwedi 'i phall i godi 'i phen.'

BEIAU MEWN SYNWYR CERDD DAFOD.

1. Unig a lluosog ynghyd, megys, 'Gwae y *gwŷr mawr* ni ddawr Dduw.'

2. Cymmrychiol ac anghymrhychiol ynghyd, megys,

'*Yno 'rwyf* yn wr ufudd.'

3. Gwrryw a benyw ynghyd, megys,—'*Afon ddyfn*, ar lyfn oer le.'

4. Drwg ystyr, sef canu molawd yn anmherthynasol, megys,

'Gŵr meddal, *glan* ei *galon*,
Yw'r *meddw*, gwnair sulw a sôn.'

5. Clôd a gogan ynghyd, megys,—'Llafn o eurych *llyfn arw*.'

6. Rhy ac eisiau, sef tramynychu yr un gyffelyb eiriau, heb ond ychydig synwyr, megys,—'Gŵr cyflawn o ffyddlawn ffydd.'

7. Cam amser, megys,—'Y *mae* neithior *yfory*.'

D. S. Mae beiau synwyr cerdd dafod, megys rhai araithyddiaeth, yn dra lluosog; eithr dichon yr ychydig engraffau hyn, o'r rhai penaf o honynt, weinyddu i rybuddio'r ymofynydd dëailus.

TERFYN.

AT YR

HAWDDGAR GYMRO.

MI a feddyliais y byddai er rhyw faint o ddywenydd a boddlonrwydd i ti, y Cymro anwyl, gael Diharebion dy wlâd yn brintiedig gyda'r Geirlyfr hwn. Y maent yn haeddu yn dda gael eu cadw rhag myned ar gôll. *Gweddillion doethineb yr hên Gymry gynt* y geilw'r Pen-Cymreigydd a'r Prif-Awdur dysgedig hwnnw Dr. DAVIES hwynt. Ni ellais i anghwanegu nemmor at y Casgl cyflawn o Ddiharebion a osodes y *Doctor* allan gyda'i Eirlyfr. Y mae ymbell un o honynt yn odywyll, a'r rhai hynny a nodais fel hyn. † Y casgl cyntaf o'r Diharebion hyn, megis yr hyspysa'r un Awdur parchedig, a elwid gynt *Madwaith hên Gyrys o Iâl*; o herwydd fal hyn, medd efe, y mae wedi ei ysgrifennu o'u blaen hwynt yn yr hên lyfrau, *Mad-waith hên Gyrys o Iâl, yr hwn a elwid Bâch Baddugre, a Gwyddfarch gyfarwydd. A'r hên wyrda gynt a ddywawd y diharebion hyn, fel y baent gadwedig gwedi hwynt, i rodci addysg i'r neb a syniai arnynt.* Pa amser yr oedd yr hên GYRYS ymma, nis gwyddai Dr. DAVIES ei hunan. Gwna di ddeunydd da o'r Diharebion hyn, gan gymmeryd addysg a gwybodaeth oddiwrthynt. A bydd wŷch.

T. R.

To the Reader.

THE BRITISH PROVERBS are here re-printed for thy Sake, and some few added, which are not to be found in the Collections published before. The first Collection of them was made by old GYRYS *of* Yale *in Denbighshire; but at what Time this* GYRYS *lived, Dr. Davies himself could not inform us. Some hundreds of* PROVERBS *were added by the* Doctor *in that compleat Collection, which he published with his Dictionary. A few of these* PROVERBS *are somewhat obscure; those I have distinguished by prefixing an* [†] *Obelisk to them. These* OLD SAYINGS, *transmitted to us from our Ancestors, do well deserve to be preserved. The great* Dr. DAVIES *calls them* Antiquæ Britonum sapientiæ reliquias, *The Remains of the ancient Wisdom of the* Britains. *And since the life of Man is so very short, that his Experience can be but small, and his Observations few, we ought not to neglect any Instructions we may receive from former ages.* T. R.

DIHAREBION CYMRAEG.

A

ABL i bawb a'i boddlono.
Abl i bawb a'i gweinyddo.
Abl i bawb ei gydradd.
A achwyno heb achos, gwneler achos iddo.
A arbedodd ei lwyn, a gollodd ei fwyn.
A arbetto ei Fâch, arbetted ei gynnog.
Achos bychan y daw blinder.
Achos heb achos o hono.
Achos i'r bysen fod ar y barth.
Achub maes mawr â drygfarch.
Achwyn rhag achwyn rhagddo.
Adail dedwydd yn ddiddos.
Adar o'r unlliw a dynnant i'r unlle.
Adfyd pôb hir dristwch.
Adneu cyhyryn gan gâth.
Adneu gan berchen.
A Duw nid da ymdaraw.
Adwen mâb a'i llawch, ac nid edwyn mâb a'i câr.
Adwyog cae anhwsmon.
A ddyfo cancar ef a ddyfydd cannos.
A ddyfo i dorth a'i dyhaith; ef a ddyfydd a wnêl ei waith.
Addas i bawb ei gydradd.
Addaw fâb addaw faen.
Addaw mawr a rhôdd fechan.
Addaw têg a wna yufyd yn llawen.
Addewid. *Vid.* Ëddewid.
Addfed angeu i bên.
Addug yr hŷdd i'r llynn.
Addug yr hŷdd i'r maes mawr.
Adduned herwr hirnos.
A ddŵg angeu nid adfer.
A ddŵg da drŵg gyngor?
A ddygco y gôd ymborthed o honi.
A ddycco'r wy a ddŵg a fo mwy.
A ddysger i fâb dduwsul, ef a'i gwybydd dduw llûn.
Aed lew i gynnwrf câd, Duw a'i differ.
A êl i lŷs heb neges, doed a'i neges gantaw.
A êl i'r gwarae, adawed ei groen gartref.
Aelwyd a gymmell
Aerwy cyn buwch.
A esgynno yn hwyr ebrwydd y disgyn.
Afiach pôb trwmgalon.
Afieithus pôb mammaeth.
Aflafar pob tawedog.
Aflan dwylo diowgswrth.
Aflan genau anudonol.
Afledhais pôb gwŷllt.
A fo anil ei fara, dan ganu aed i laetha.

A fo aml ei feibion bid wâg ei gofuddion
A fo aml ei fêl rhoed yn ei uwd.
A fo caled ynghyngaws, dadleued ar bob achaws.
A fo da gan Duw ys dir.
A fo digwilydd a fydd digolled.
A fo dried ar fôr, dried fydd ar dir.
A fo ei frŷd ar ddebed, ni wna dda cyn ei fyned.
A fo goreu i ryfel goreu fydd i heddwch.
A fo hên arched weddi.
A fo hyborth hywir fydd.
A fo marw ni ymogelir.
A fo nesaf i'r eglwys, fydd pellaf oddiwrth baradwys.
A fo trechaf treisied.
A fo pen bid pont.
Afrad yw gwrthod.
Afrad pob afraid.
Afrwydd pob dyrys.
A fu bencwd aeth yn dincwd.
A fynno barch bid gadarn.
A fynno Duw derfid. *al.* dydderpid.
A fynno glôd bid farw.
A fynno gymmell bid glâf.
A fynno iechyd bid lawen.
A gafas y carn, a gafas y llafn.
A gaffo ddymod y bore, hyd ucher ydd â ag ef.
A Gair Duw yn uchaf.
A garo ei fam, cared ei elldrewyn. *Vid.* Ni charo.
A garo ei gilydd, nid adnebydd ei gabl.
A garo yr iau cared ei waryau.
A garo ei gŵr cared ei chwegr.
A gasgler ar farch maleu, dan ei dorr ydd â.
A gatwer a gair wrth raid.
A grea'r frân fawr a grea'r frân fechan.
A gŵyn cŵyn bychan, cŵyn mawr a ddarogan.
A gŵyn rhwy ni ry gwynfan.
A gyfodes a golles ei fe.
A gymmero ddŷsg cadwed.
Alwisen tam o garw. *Vid.* El.
A lygrwys Duw a lygrwys dŷn.
Allan o olwg allan o feddwl.
Allwedd calon cwrwf da.
Amaerwy adnabod ammyredd.
Amaerwy direidi drŵg anian.
Amcan a fydd gan bawb.
A'm caro i cared fy nghi.
Amgeledd y ci am y cŵd halen.
Am gwymp hên chwerddid gwên gwâs. *Al.* Am gwymp hên y chwardd ieuangc.
Amla'r cwrwf tra hitler.
Amla'r mêl tra hitler.
Aml bai lle ni charer.
Amlwg câs a chariad.
Amlwg gwaed ar farch gwelw.
Amlwg gwaed o ben crâch.
Ammharod pôb anallu.
Amheuthun pob dieithrfwyd.
Ammau pôb anwybod.
Ammod a dyir defod.
Ammraint pôb torr defod.
Amser i fwyd amser i olychwyd.
Amser sydd i bôb peth.
Anafus pôb drwgfoesawg.
Anaf ynginiu, angau ynghŵythi.
Anegiur cennad yw ceudawd.
Anerian pôb diriaid.
Angall mal dall a dwyllir.
Angel pen ffordd a diawl pentan.
Angen a bair i benwrach duthio.
Angen a brŷn ac a werth.
Angen a dyrr ddeddf.
Angen a ddŷsg i hên redeg.
Anghariadus pôb diriaid.
Anghenawg pôb tlawd.
Anghwbl pôb eisiau.
Anghymmen pôb ffôl.
Anghymmes pôb oer.
†Angheu angen dyhewyn dir.
Angheu a ddyfrys.
Angheu garw drûd a'i heirch.
Anghwanecgid meil mowiair.
Anghyfarwydd a dyrr ei din yn cachu.
Anhael pôb cybydd.
Anhappus pob trŵch.

Annhebyg biau ffynnio.
Anhyderus pôb ofnog.
Anhydyn pôb afrywiog.
A noddo Duw ry noddir.
Annoeth llithrig ei dafod.
Annog dy gi ac na ddôs gantho.
Annos ci i gell egored.
†Anrhaith gyfludwyt taeog yn nhy ei gilydd.
Anwadal pôb ehud.
†Anwar fu felyn ei fraint.
Anwydog chwannog i dân.
Anwyl gan bawb a gâr.
A oddef ry dau.
A ogano a ogenir.
Araf dân a wna brâg melus.
Araith doeth a drûd ni ddygymmydd.
A rannawdd nêf a gafas.
A renno i liaws rhanned yn hynaws
Ardd cŷd bŷch, ardd cyn ni bŷch.
Ar ddiwedd y mae barnu.
Arf doeth yw pwyll.
Arfog a gaffo rybudd.
Argiwydd a gymmell.
Arglwydd biau a wthotter.
Arglwydd gwann gwae ei wâs.
Arglwydd pawb ar ei eiddo.
Arian a bryn ac a werth.
Ar ni allo trais twylled.
Ar ni ochelo'r mŵg, ni ochel ei ddrŵg.
A'r gwelleif y llâs y weirglodd.
Ar nid yw pwyll pŷd yw.
Ar ni oddefo gwâs, bid wâs iddo ei hun.
Ar ni phortho ei gâth porthed ei lygod.
Ar ni roddo a garo ni chaiff a ddymuno.
Ar ni wano yn ddraen ni wân yn gippyll.
Arofyn drwg fugail.
Arwaesaf a ddiffydd diffaith.
Arwaesaf i leidr ei fanag.
Arwydd drŵg mŵg yn niffaith.
Arwydd nad cig bŵch.
Aseth ni phlycco nid da.
Asgiodyn gwern ymhen y gâth.
Asgre lân diogel ei pherchen.
Asgwrn yr hên yn yr angen.
Astius pôb anef.
Atfai gell i gi, mynych ydd â iddi.
Atgas direid-ddyn.
Attcb araf gan ddysgedig.
Athro pawb yn ei dy.
Athrodwaith o genfigen.
Aur gan bawb a chwennych.
A wahanodd cnawd gwahanodd ddolur.
Awchus arf a cillio.
Awdur cerdd a'i gwnêl.
Awgrim pawb nis gwybydd.
A wnêl drŵg arhoed y llall.
A wnêl drwg ymogeled.
A wnêl dŷn Duw a'i barn. *Al.*
A wnêl Duw dŷn a'i barn.
A wneler yn rhin nant, ef a'i gwybydd cant.
A wnêl mâd, mâd a ddyly.
A wnel mowrddrwg a rydd mowrllw.
A wnêl twyll ef a dwyllir.
Awr ddrŵg caffaeliad ffalswr.
Awydd a dyrr ei wddf.
A yfo lawer bid feddw.
A wreiddio mewn drygioni.
Anhawdd fydd ei gynghori.
A ysso tam y mâb yssed ei fefl gantaw.

B

BAI ar wrâch dorri ei chlûn.
Bai ar farch dorri ei droed.
Balchder heb droed.
Balchder o bell.
Bara ac ymenyn yw un tammaid.
Barf nid ardd ni chwardd ychlas.
Bâs pan wahenner hynny.
Basaf dwfr pan yd lefair.
Be â bawd y gweid gwe.
Be caffai pawb a fynnai, ni byddai hinaethawg neb rhai.
Bellach bellach fal chwedl y barcut.
Bendith i'r hŵch biau'r bloneg.
Berwid calon llew.
Bid anian dedwydd.

Bid anniweir diferiawg.
Bid anwadal ehud.
Bid dirieid dryganiamus.
Bid ehud drûd er chwerthin.
Bid euain alltud.
Bid gyfa ran rybuchir.
Bid háha byddar.
Bid hyfagl gwyar ar oun.
Bid lâs lluarth.
Bid lawen iâch.
Bid lawen meddw.
Bid lyfn dy baderau, bid rydlyd dy arfau.
Bid nŷch cwyn clâf.
Bid reniad ymgyfarth.
Bid trist pob galarus.
Bid wagelawg lleidr.
Bid wâr antur glew wrth awr.
Bid wastad wraig o'i mynych warth
Bid wyw gŵr heb fagwriaeth.
Bid wyw march a gnith gwellt mai. *Aliàs* Bid fyw.
Blaengar ymadrodd ffôl.
Blingo'r gâth hyd ei llosgwrn.
Blodau cyn mai malpai na bai. *Aliàs* Goreu na bai.
Bo amlaf fo'r bleiddiau, gwaethaf fydd i'r defaid.
Bob eilwers y rhêd y cŵrn.
Bod yn hir yn glâf a marw eusys.
Bo hynaf fo'r dŷn gwaethaf fydd ei bwyll.
Bo hynaf fo'r rhŷg tebyccaf fydd i'w dâd.
Boloch ofnawg fydd daw.
Bonedd a dywys, dillad a gynnwys.
Bore brwynawg bradawg iair.
Bore côch a mawredd gwraig.
Bo tynna' fo'r llinyn cyntaf y tyrr.
Braith ei gôd a gynnull.
Brawd yw mygu i dagu.
Breuddwyd gwrâch wrth ei hewyllys.
Brodyr pôb cerddorion.
Buan barn pôb ehud. *Vid.* Moch.
Bûdd cyn tymp.
Bwrw â'th unllaw cais â'th ddwylaw.
Bwrw câth i gythraul.
Bwrw dwfr am ben gŵr marw.
Bwrw gwyddif ar ôl yr hwyaid.
Bwrw heli yn y môr.
Bwystlawn geneu callawr.
Bwytta'r mêl o'r cŵrch.
Bychan fydd mam y cynfyl.
†Bychodedd minailed. *Aliàs* myualedd.
Byddar a gaiff gyffelyb.
Byrr ddryganian a wna hir ofal.
Byrrddydd ni dderfydd cyngor.
Byrr-hoedlog digasog Saint.

C

CADARNACH yw'r edau yn gyfrodedd nag yn ungorn.
Cafas da ni chafas ddrwg.
Caffad malu, caffad ei werth.
Cais farchog da dan draed ei farch.
Cais yn y mwlwg.
Calan gauaf garw hin, annhebyg i gynnesin.
Caledach glew na maen.
Calon ni gynnydd cysgid. *Aliàs* cystudd.
Calon y Sais wrth Gymro.
Can rewydd ni bydd pêll rhin.
Can câr fydd i ddŷn a chan esgar.
Can mil gwraig.
Can wst gan henaint.
Canhymdaith ci ei losgwrn.
Cant mwyn mâb y ty.
Cann heb gywydd.
Casbeth gwyr Rhufain.
Casben Owen Cyfeilnog.
Câr cywir yn yr ing y gwelir.
Carth gwaelod y bellen.
Câs dŷn yma, câs Duw fry.
Câs fydd a oreilittio.
Câs maharen mwyeri.
Câs yw'r gwirionedd yn lle ni charer.
Caseg glôff clôff ei hebol.
Cau tin wedi brammu.
Ceiunygir pob newydd.
Ceisied asgre ei fam a gollo.
Celfydd celed ei arfaeth.
Cêll Arglwydd y weilgi.

Cenau milgi a morwyn ni chaiff eu mŵyn a'u magco.
Cenau yn ei wâl, a gâst lem.
Ceisio diried yn ei dyddyn.
Ceisied pawb ddŵr i'w long.
Cennyl gwraig mowrdda.
Cennad fûd drûd a'i crettwy.
Cennad hwyr drŵg ei neges.
Cerddwys a rwymmwys.
Cerid chwaer diried cyn ni charer.
Ceugant yw angau.
Ci chwymog halawg ei bais.
Ci a helio pob llwdn ni bydd da ar yr un.
Clwm anghenog ar y geiniog.
Clwm eiddil moch ellwng.
Clŷd pôb clawdd i ddigarad.
Clywid corn cyn ni weler.
†Coel can hadain.
Coes yn lle morddwyd.
Côf gau bawb a gâr.
Coffa dy din pan entrewych.
Cofl gwâs diog.
Cogor iâr yn ydlan.
†Colles dy lad cystal i'r fuwch.
†Colles ei glydwr a gyrchawdd ty Côsp ar ben iâr. [yadwr.
Cospi yr arth yngŵydd y llew.
Cospi'r maer ym mhen y drêf.
Cos tin taeog, efe a gâch yn dy ddwrn.
Crâff ci, caledach asgwrn.
Craffach na'r efail.
Crechwen yngenau yufyd.
Crefydd iâr wrth ei gylfin.
Crŷd ar hên angeu ys dir.
Crynu fal y forwialen.
Cuall cleddyf byrr o wain.
Cu annair wedi praidd.
Cwymp ar galedlawr.
Cwymp y gŵr yn y rhŷch.
Cwyu bychod ceiliog yn aerwy.
Cyd boed da nid gwirdda.
Cyd boed dŏeth diried ys drûd.
Cyd boed hirddydd dybydd ucher.
Cyd celer nawnos, ni chelir nowmis.
Cydfwytta a mâb Arglwydd, ac na chyd chwarae.
Cyd gwichio'r fenn hi a ddŵg ei llwyth.
Cydles i bawb galw'r ychen.
Cyd ysso cig march bid ar gig ebol.
Cyfa ran rybuchir.
Cyfaill blaidd bugail diog.
Cyfareddion gwrâch waethwaeth.
Cyfarwyddaf llaw lle y dotto.
Cyfnewid â hael.
Cyfoed fydd da a dedwydd.
Cyfoethog i werthu, tlawd i brynu.
Cyfrin pen a chalon.
Cyffes pob rhwydd.
Cymmwythach corrach a simmach.
Cymmyrrid haearn hoedl dŷn.
Cyn ddyiheued ac yssu o'r llygod y cwiltr.
Cyn ebrwydded yn y farchnad, croen yr oen a chroen y ddafad.
Cyngheusedd wedi brawd.
Cyngor hên ni'th attwg. *Aliàs* Cyssul.
Cyngor i'm gwâs yn hên.
Cynnadl taeog yn ei dy
Cynnelw cinyn gan gadechyn.
Cynt y cwrdd dau ddŷn na dau fynydd. *Aliàs* dwy lann.
Cynt y llŷsg yr odyn na'r ysgubor.
Cyrch Cabryttai.
Cyrchid fryn a ddisgwilio.
Cyrch y ci ar y freuan.
Cyssul hên nith addwg.
Cystal ar draed a marchogaeth ffon.
Cystal y march a'i adfarchwerth.
Cywala gweddw gwraig unben.
Cywrys am fwyd, carant am ofid.

Ch

Chwannog trŷch i drin.
Chwannog mâb iw hynt, chwannog adref a fo cynt.
Chwarae ac na friw, cellwair ac na chywilyddia.
Chwarae brôch ynghod.
Chwarae hen-gi a chenau. *Alias* a cholwyn.
Chwareuid mâb noeth, ni chwery mâb newynog.

Chwarae hŵch a phorchell.
Chwareuys yn awr, nid chwareuys mlwyddyn.
Chwarddiad dŵr dan iâ.!
Chwefror chwŷth neidr o'i nŷth.
Chwêg mêdd pan yfer, chwerw pan daler.
Chwegach bwyd cybydd.
Chwerddid brŷd with a garer.
Chwerthin a wna ynfyd yn boddi.
†Chweyrys gwawd o annianawd.
Chwil gan nôs.

D

DA angau ar eiddiawg, *or* taeawg.
Da daint rhag tafawd.
Da mâb y gôf.
Dadleu gwedi barn.
Dadleu mawr mynych, ac egni ar lygoden.
Da gwaith Duw, roi cyrn byrrion i'r fuwch a hwylio.
Da gweddai'r bêr i'r golwyth.
Da gwr mal pawb.
Da hil ceirch gan ddrug gynnog.
Daint y ci wrth yr hŵch.
Dala dy dŷ am a fo, a diofryd a ddarffo.
Dalis da yn brŷd fu.
Dall fyddar pob trŵch.
Dall pob anghyfarwydd.
Damwain pob hely. *Alias* helynt.
†Dangof llwyr i gyfarwyre; *or* Dangos.
Dangos diriaid i gŵn.
Dangos dy fŷs i falawg, ynteu a'i heirch yn gwbl.
Dangos llwybr i gyfarwydd.
Dangos nêf i bechadur.
Dangos y llo, ac na ddangos y llaeth.
Dau brŷd newynog a wna'r trydydd yn lŵth.
Dau waith a fydd gan gywraint.
Da yw a saif ac ni waner.
Da yw côf mâb.
Da yw Duw, a bir yw byth.
Da yw'r maen gyda'r Efengyl.
Dechreu blaen carrai o foly.
Dedwydd a gâr dalodwch. *Q. wh.* dadolwch.
Dedwydd a gaiff draen yn ei uwd.
Dedwydd Dofydd a'i rhydd rhâd.
Dedwydd i'r a'i gwŷl a'i câr.
Defnyddfawr pob anghywraint.
Deuparth clôd ymmhenglog.
Deuid y ci wrth yr hŵch.
Deuparth gwaith ei ddechreu.
Deuparth ffordd ei gwybod.
Deuparth ffŷdd ynghalon.
Deuparth parch yw arfer.
Deuparth prŷd ymdrwsio.
Deuparth bonedd yw dŷsg.
Deuparth dysg yw hyder.
Deuparth taith ymbarottoi.
Deuparth tref ei harferau.
Deuparth cerdd ei gwrando.
Deuparth rhódd yw ewyllys.
Dewin pob eiddig.
Dewis ai'r iau ai'r fwyall.
Dewis o'r ddwy fachddu hŵch.
Dewis pawb o'i giniaw.
Diangc ar Glwyd a boddi ar Gonwy.
Diau gynnadl taeog o'i dŷ.
Dibech fywyd gwyn ei fyd.
Diengid gwan erlid rhy gadarn. *Alias* elid.
Diffaith llyffant dan ia.
Differwy Duw ddiawg.
Dig pawb rhag a'i câr os cawdd.
Digawn da diwyd gennad.
Digon Crist trist yn llawen.
Digon Duw da i unig.
Digon o grŵth a thelyn.
Digon yw digon o ffigys.
Digawn yw gwarae rhynnawd.
Diglod pob anhawddgar.
Digrif gan bob ederyn ei lais.
Digu pawb o anadl y pibydd.
Digystudd deurudd dâ grau. *Alias*, Dygystudd. *Vid.*
Dihunid a brydero.
Dillad a gynnwys.
Dillyn ieuange carpiog hên.

Dillyn yn llaw henfab.
Dinas a ddiffydd diffaith.
Dir yw gadael peth or dwfr heibio,
Diriaid a gabl ei oreu.
Dirieid a geiff draen yn ei uwd.
Dirieid a glûd i ddedwydd ac o fôr ac o fynydd.
Diriaid ni hawddfaidd heddwch.
Dirmygir ni welir. [mwyll.
Disymmwth fydd dryglaw am-
Dirwest odyn.
Diwedd lên cadw defaid.
Diwyl yw angeu, diwylach a edeu.
Diwyttaf i fleiddian ei gennad ei hunan.
Dlêd ar bawb ei addaw.
Dod dy law ar dy galon.
Dod fenthyg i noeth nis cai drannoeth.
Doeth a dwyllir deirgwaith, ni thwyllir drûd ond unwaith.
Doeth dŷn tra tawo.
Dogn sydd ar bôb pêth.
Dolurus calon ofalfawr.
† Dofydd dhirwaith aros. *Potiùs* Dyfydd.
Drûd a dâl dau cyfled,
Drûd i ddala, doeth i estwng.
Drûd ganu deulw.
Drŵg a drefn wrth ei drwyddedawg.
Drŵg o lŷs ni atter gwâdd. *Alias,*
Drŵg llŷs ni atter ond a wahodder.
Drŵg pawb o'i wybod.
Drŵg pawl ni safo flwyddyn.
Drŵg pechod o'i bell erlid.
Drŵg wrth dranoeth.
Drŵg un drŵg arall.
Drŵg y ceidw Diafol ei wâs.
Drŵg yw'r drŵg, a gwaeth yw'r gwaethaf.
Drŵg yw'r ffordd ni cherdder ond unwaith.
Drŵg yw drygwas, gwaeth yw bod hebddaw.
Drŵg yw'r pêth ni thâl ei ofyn.
Drŵg yw'r swydd ni thâl ei gwasanaeth.
Drŷch i bawb i gymmydog.
Drygwaith dwywaith y gwnair.
Drythyll pob digraid. *Alias* pob dirieid.
Drythyll maen yn llaw esgud.
Drythyllwch drwg ei ddichwain.
Duw a byrth i fusgrell.
Duw a fêdd, dŷn a lefair.
Duw a rannodd, nef a gafodd.
Duw a ran yr anwyd fel y rhann y dillad.
Duw cadarn a farn pob iawn.
Dwrdd gan deulu.
Dybydd rhew i lyffant.
Dyccer ni weler ei rann.
Dyccid ammwyll ei ran.
Dyccid chwant tros peiriant pwyll.
Dyccid Duw daphar o law.
Dyddaw drŵg hanbyddir gwêll.
Dygas gwaith erlyn.
Dygn dyn o garchar.
Dygn yw adaw a garawr.
Dygymmyrrid haiarn hoedl dŷn.
Dygystudd deurudd dagrau. *Vid.* Di.
Dyly mâch ni ddyly ddim.
Dylyn hael onid êl yn gi.
Dylluan yn llaw henfab. *Potiús,* Dillyn. *Vid.*
Dyrnod gwâs, hir yw ei gâs.
Dyro lynn i ddoeth e fydd ddoethach.
Dyrysswys y garthen.
Dŷsg ddedwydd â gair, dysg ddiriaid â gwiail.
Dysgu grâdd i henfarch.
Dywaid llafar ni wypo,
Dywal dir fydd ei olaith.
Dyweddi o wngc, galanas o bell.

E

EBAWL yr ebawl i Dduw.
Ebrill garw, parchell marw.
Echwyn yw nâg.
Edifar cybydd am draul.
Eddewid gwragedd dau eiriawg.
Eddewid nis gwneler nid yw.

Edwyn crâch y llall.
Edwyn heu-gath ieirith.
Ef a aeth hynny ar gyrn a phibau.
Ef a ddaw hâf i gi.
Ef a fydd am y maidd ac ni bu am y caws.
Ef a ŵyr dŷn pan êl, ac ni ŵyr pan ddêl.
Ef a ŵyr y gâth pa farf a lŷf.
Ef y molir pawb wrth ei waith. *Al.* waeth.
E fynnai'r gâth bysgod, ond ni fynnai wlychu ei throed.
Egor dy gŵd pan gaech borchell.
Ehang yw'r bŷd i bawb.
Ehegr fydd dŷglaw i amwyll.
Eidduned herwr hirnos.
Eilfam modryb dda.
Eiriach law, nac eiriach droed.
Eiriawl a garawr hawddwaith.
Eiriawl a garawr ni gyngain.
Eithr gallu nid oes dim.
E lâs a gafas rybudd, ac ni lâs a'i cymmerth.
Elid brŷd yn ôl breuddwyd.
Elid ci i gêll egored.
Elid gwraig yn ôl ei henllib.
Elid llaw gan droed.
†Elid ryw, ar barth pa yw.
Elid un i gant, elid cant i un.
Elid ysgubor gan ddrygdorth.
Elid y wrâch i'r freuan, er ei genau ei hunan.
Elusen tam o garw. *Vid. Al.* Enw heb senw.
Enwawg meichiad o'i fôch.
Enwir difenwir ei blant.
Ergryn llwfr lliaws addoed.
Ergyd ar gais.
Ergyd yn llwyn cyssul heb erchi.
Er heddwch nac er rhyfel, gwenynen farw ni chasgl fêl.
Esgud drygfab yn nhŷ arall.
Esmwytha gwaith yw methu.
Ethyw corn heb ysgyfarn.
Ewyllys y gwyn-gam am ei lawdr.
Ewyn dŵr eddewid gwâs.

F

Fal, fel. *Vid.* Mal.

Ff

Ffawd pawb yn ei dâl.
Ffiaidd ni charer.
Ffôl pob llawd.
Ffordd bêll i ŵr o Beullyn.
Ffordd lan Faglan ydd air i nef.
Ffordd lan Fechan ydd ai y wenyncn yn ei phreseb.
Ffo rhag drygtir, ac na ffo rhag drŵg Arglwydd.

G

Gadu gwraig ag unfefl, a'i chymryd â dwy.
Gadu'r nôs waethaf yn olaf.
Gair dannod yw am un a fethodd.
Gair drŵg anianol, a lûsg drŵg yn ei ôl.
Gair gwraig fal gwynt yn faweidian
Gair gwraig gwneler.
Gair gwraig mal gwynt y cychwyn.
Gair gŵr o gastell.
Gan rewydd nid pêll fydd rhin.
Gelyn yw i ddŷn ei dda.
Gellwng drygwr i ysgubor gwrda.
Genau mwyaich ac arch blaidd.
Gennid rhybuched rhwng llaw a llawes.
Gennid ym wŷs yn nhŷ Dduw.
Geuawg ni chaffo copinawd.
Glew a fydd llew hyd yn llwyd.
Gnawd adneu yn llan.
Gnawd aelwyd ddiffydd yn ddiffaith
Gnawd aflwydd gan ddiriaid.
Gnawd ar eiddil ofalon.
Gnawd as tyrr gan orchymmyn.
Gnawd buan o fain.
Gnawd buan o frâs.
Gnawd corphawg o fain.
Gnawd cyssul dedwydd yn ddoeth.
Gnawd dial anghwbl gan anghelfydd.

Gnawd difrawd ar blant enwir.
Gnawd digarad yn llŷs.
Gnawd eddewid gwraig gwaith ry phall.
Gnawd ffo ar ffraeth.
Gnawd gan rewydd rychwerthin.
Gnawd gorphwysfa lle bo croes.
Gnawd gwarth o fynych gysswyn.
Gnawd gwedi llynn lledfrydedd.
Gnawd gwin yn llaw wledig.
Gnawd lladrad yn ddiymgel.
Gnawd llwyr dâll llwyr dwng.
Gnawd mâb taer yn filain.
Gnawd mann ar rann cynnifiad.
Gnawd merydd ym mro.
Gnawd mynych Awn, i fethdaith.
Gnawd o ben drythyll draha.
Gnawd o egin meithrin dâs.
Gnawd osp er nas gwahodder.
Gnawd rhiau eu rhadau yn wasgarawg.
Gnawd rhygas wedi rhyserch.
Gnawd serchog ym lyniad.
Gnawd synn syml anghyfiaith.
Gnawd tawel yn delaid.
Gnawd uch ben dedwydd diddos.
Gnawd wedi rhedeg attregwch. *Aliàs*, Rhydeg.
Gnawd wedi traha tramgwydd.
Gnawd wedi traha trangc hir.
Gnawd y cair colled o fraw.
Gnawd yn ôl dryghin hindda.
Gnawd yn y bo cydwyr y bydd cyrch.
Gnawd yn y bo dwfr y bydd brwyn.
Gochel dafarn ac na ochel ildio.
Godrohid buwch o'i phen.
Gofal dŷn Duw a'i gweryd.
Gogann'r bwyd a'i fwytta.
Gogyfeirch pawb ar ni wypid.
Goleu freuddwyd a welir liw dydd.
Golwg Duw ar adyn.
Golwg dŷn ar a'i dyhudd.
Golwg pawb ar a garo.
Golwg serchog syberw fydd.
Golwg yn yd gwŷl yd gâr.
Golwg y perchen yw cynnydd y da.
Gorddiweddid hwyr fuan.
Goreu camwri cedwid.
Goreu canwyll pwyll i ddŷn.
Goreu clôff cloff aradr.
Goreu cyngaws gwâs diawg.
Goreu cymeddfau cadw moes.
Goreu defawd daioni.
Goreu edifeirwch edifeirwch gwerthu.
Goreu enw mi biau.
Goreu gan fy mam ei llâdd.
Goreu gwrthwyneb gwrthwyneb cŵys. *Aliàs*, Tewyn.
Goreu meddyg meddyg enaid.
Goreu newyu un ariant.
Goreu peddestr yw gau.
Goreu rhan rhoddi cynnwys.
Goreu un tudded mantell.
Goreu yw'r gwareu tra atter.
Gorllyfnu pen ci tra eler heibio.
Gormes y taeawg ar ei gilydd.
Gormodd bw ar ebol.
Gormodd faith yw twt ar farch.
†Gorug ei waith a fach y fachdaith.
Gormodd esmwythder sydd anhawdd ei drin.
Gossymdaith dŷn Duw a'i rhan.
†Goyaen a wêl ynghyfyng.
Gwaddawd gwythlonedd gair blwng
Gwae a arhoo ei giniaw, O din dafad wedi glaw.
Gwae a dro o glûn i glûn, ac ni feddo beth ei hûn.
Gwae a ddycco ei henwâs i lŷs.
Gwae a fo a'i fefl yn ei fynwes.
Gwae a fynu mefl ar bychod.
Gwae a gawdd Duw ac nis crêd.
Gwae a gâr ni garer.
Gwae a gaffo ddrygair yn ieuangc.
Gwae a wnêl da i ddiawg. *Aliàs*, eiddiawg.
Gwae a wŷl ei arglwydd beunydd.
Gwar ddigariad llŷs.
†Gwaedlyd wrth faint dy drachywedd.
Gwae fyrrwr ynghynhauaf. *Aliàs*, oferwr.
Gwae ieuaingc a eiddun henaint.
Gwae'r mil ni wŷl ei bercheu.

Gwaethaf anaf anfoes.
Gwaethaf rhyfel (*aliâs* i'r ŷd) rhyfel teisban.
Gwaethaf ystôr o ferch.
Gwaeth unblaidd clôff na dau iâch.
Gwaethwaeth chwedl Wilmot.
Gwaethwaeth faensaer, wellwell brensaer.
Gwaethwaeth fal mâb gafr.
Gwaethwaeth y rhêd y cŵn.
Gwae undyn a wnêl caut yn drist.
Gwae ŵr a gaffo drygwraig.
Gwâg tŷ heb fâb.
Gwaith y nôs y dŷdd a'i dengys.
Gwaith ysgawn ymogelyd.
Gwala gweddw gwraig unben. *Vid.* Cywala.
Gwallt bonwyn a gwyn estronion.
Gwân dy bawl yn hafren, hafren fydd hi fal cynt.
Gware gweli îr.
Gware hen-gi â cholwyn.
Gware mi trêch.
Gwartheg arall yn adnau, pan fo chweccaf ni bydd tau.
Gwareuid mâb noeth, ni chwarae mâb newynog.
Gwâs da a gaiff ei le.
Gwâs da bronwala ei arglwydd.
Gwâs i wâs chwibanwr.
†Gwasgu'r haid cyn noi cherdded; *or,* Gwâs gŵraidd cyn no'i gerdded.
Gwatwar y dŷdd am waith nôs.
Gwedi treiglo pob tre', têg edrych tuag adre.
Gweddill mâb iâch.
Gweddw crefft heb ei dawn.
Gweddw pwyll heb ammynedd.
Gweini ffawd hyd frawd ys dir.
Gwelius nid diddolur.
Gweled deubeth o'r un.
Gweled ei glûst â'i lygad.
Gweli aderyn yn llaw na dau yn y coed.
Gwell cariad y ci na'i gâs.
Gwell corawg na chybydd.
Gwell egor na chynnwys.
Gwell am y pared a dodwydd, nac am y tân a dirieid.
Gwell anghanawg môr, nag anghanawg mynydd.
Gwell aros na mefl gerdded.
Gwell aros o alltudedd, nag aros o fêdd.
Gwell bêdd na buchedd angheuawl. *Vid.* Anghenawg.
Gwell benthyg nog eisiau.
Gwell bendith y tlawd na meistrolaeth y cadarn.
Gwell bod yn ben ar yr hyddod, nag yn dîn ar yr iyrchod.
Gwell bôdd pawb nâ'i anfodd.
Gwell bonedd na thaeogrwydd.
Gwell buarth hysp nag un gwâg.
Gwell bychod ynghôd na chôd wâg
Gwell byrr eistedd na byrr sefyll.
Gwell byw na marw.
Gwell cadw nag olrhain.
Gwell caffael nodwydd na cholli'r cwlltr.
Gwell can muw i'r can-nyn, nag un muw i undyn.
Gwell câr cêll na châr pennill.
Gwell câr yn llŷs nag aur ar fŷs.
Gwell ceiniog na brawd.
Gwell cerdd o'i breiniaw.
Gwell ci a rodio na chi a eisteddo.
Gwell clwtt na thŵll.
Gwell ceginiaeth na brenhiniaeth.
Gwell crefft na golud.
Gwell cûl cyfa na byrr anghyfa.
Gwell cybydd lle y bo, na hael lle ni bo.
Gwell cyngor hên no'i faeddu. *Al.* faddeu.
Gwell cynnil na chywraint.
Gwell cynnwys gott nag un lleidr.
Gwell chwarae nag ymladd.
Gwell drygsaer na drygof.
Gwell Duw na dim.
Gwell Duw na drŵg obaith.
Gwell Duw wrth ei folawd.
Gwell Duw yn gâr, na llu y ddaiar.
Gwell dwylo'r cigydd na dwylo'r sebonydd.

Gwell dychymmygwr na gorchwiliwr.
Gwell dyhudd na rhyssedda.
Gwell dŷn drŵg o'i gospi.
Gwell dynoliaeth na drych.
Gwell edrych ar ddŷn yn cachu nag yn cymmynu.
Gwell eidion gwerth nag un pryn.
Gwell cistedd ar y gwellt nag ar y llawr.
Gwell erlid arglwydd na'i ragod.
Gwell gan hwyr na chan foreu.
Gwell gan wraig a fo da genthi nag a fo da iddi.
Gwell gochel mefl no'i ddial.
Gwell goddef na gofal.
Gwell golaith na gofid.
Gwell golud na rhyssedd.
Gwell gorne golchi nag un glythni.
Gwell gwae fi na gwae ni.
Gwell gwegil câr nag wyneb estron
Gwell gwestai gwraig nag un gŵr.
Gwell gwichio'r colydd, na chochi 'r deurydd.
Gwell gŵr a ddaeth ymhen y flwyddyn nâ'r gŵr ni ddaeth byth.
Gwell gwir na chelwydd.
Gwell gŵr na gwyr.
Gwell gŵr na'i rann.
Gwell gŵr o'i berchi.
Gwell gwraig o'i chanmol.
Gwell hanner hâd nâ hanner hâf.
Gwell hên hawl na hên alanas.
Gwell hir bwyll na thraha.
Gwell hir weddwdod no drwg briod
Gwell iddaw a ddonier nag a fonhedder.
Gwell i ddŷn y drŵg a ŵyr, na'r drŵg nis gŵyr.
Gwell i'r gâth nad elid i hafotta.
Gwell i'r gŵr aeth a'r faneg i ytta nag a'r ffettan.
Gwell i wraig y pysgodwr, nag i wraig y gwynfydwr.
Gwell maen garw a'm attalio, na maen llyfn a'm gollyngo.
Gwell mam godawg na thâd rheddawg.
Gwell marchwr gwerthu, nag un prynu.
Gwell marw nâ hir nychdod.
Gwell marw na mynych ddifrod.
Gwell mefl fod, no mefl gerdded.
Gwell migwrn o ŵr na mynydd o wraig.
Gwell moes law no moes fam.
Gwell nâg na dau eddewid.
Gwell nâg nag addaw ni wneir.
Gwell neith dwywrach nag un.
Gwell peidiaw nag ymddireidiaw.
Gwell penloyn yn llaw, na hwyad yn awyr.
Gwell pren cyhuddiad nâ dŷn cyhuddgar.
Gwell pwyll nag aur.
Gwell rhan ofn na rhan cariad.
Gwell rhan ofni na rhan-lyngcu.
Gwell rhy draws na rhy druan.
Gwell synwyr na chyfoeth.
Gwell tewi na drwgddywedyd.
Gwell toliaw na huriaw. *Alias*, heiliaw.
+Gwell trŵch nag arwynniad.
Gwell un cynnhorthwy na dau wŷs.
Gwell un ceidwad na dau ymlyniad.
Gwell un crywyn, (*alias* croen) na dau fuddelw.
Gwell un dyrnod â'r ordd, na dau â'r morthwl.
Gwell un gair ym mlaen na dau yn ôl.
Gwell un hwde na dau addaw. *Al.* Ti gai.
Gwellwell hyd farf, waethwaeth hyd farw.
Gwellwell pob ffynnedig.
Gwell wyneb na gwalv.
Gwell ychydig gan râd, na llawer gan afrad.
Gwell ynghysgod y gownen nag heb ddim.
Gwell y lle y ffoes Wilmott, na'r lle y llâs.
Gwell y llŷsg dau etewyn nag un.
Gell ym mlaen yr iyrchod nag yn ôl yr hyddod. *Vid.* Gwell bod, &c.

Gwell y tynn merch na rhaff.
Gwell y wialen a blyccо na'r hon a dorro.
Gwell yw'r ddirwy na'r anrhaith.
Gwell yw'r march a fo'n ei forddwyd, nag a fo'n ei breseb.
Gwerthfawr pob odidawg.
Gwerthu cig hŵch, a phrynu cig môch.
Gwerthu mêl i brynu peth melus.
Gwir a ddywawd Gwion gŵd.
Gwirion pawb ar ei air ei hun.
Gwiw aur i a'i dirper.
Gwna dda dros ddrŵg, Uffern ni'th ddŵg.
Gwnelid serch saeth syberw.
Gwneuthur deuddrwg o'r un.
Gwrâch a fydd marw etto yn Rhiw Fabon.
Gwr ni'th gâr ni'th gydfydd.
Gwr pawb yn hâf.
Gwrthlys i bob llŷs a fydd.
Gwrthod gwahodd a mynd i wêst.
Gŵyl yw hanes.
Gwynt a lŷf da gwraig weddw.
Gwyw calon gan hiraeth.
Gyda'r ci y cerdd ei gynffon.
Gyrr fâb ti a gai nâg.
Gyrru brân i geisio tir.
Gyrru'r cŷn a gerddo.

H

HAEDDU annerch yw cara.
Haeddu ar nŷth y caccwn.
Hael byrrlofiawg.
Hael Hywel o bwrs y wlâd.
Hael pob colledig ychenawg.
Hâf hyd galan, gauaf hyd fai.
Hanbid gwaeth y ddrygcath o dorri ei hewinedd.
Hanbid gwell y ci farw y llall.
Hanbydd ychwaneg y môr o bissodyn y dryw.
Hanes tŷ hanes coed.
Hanner y wledd hoffedd yw.
Hap Duw ddewryn.
Hardd pob newydd.
Haul yn lonawr ni mâd welawr, mawrth a chwefrawr a'i dialawr.
Hawdd cynnnod lle bo cariad.
Hawdd cynneu tân yn hên aelwyd.
Hawdd dyddio rhwng ffals a chwannog.
Hawdd eiriawl ar a garer.
Hawdd nawdd yngwasgawd gorwydd.
Hawdd peri i fingam wylo.
Hawdd peri i fonheddig sorri.
Hawdd talu ffŵg i ffôl.
Hawdd tynnu gwaed o ben crâch.
Hawdd ŷf a wyl ei wely.
Hawdd yw clwyfo clâf.
Hawdd yw digio dig.
Hawdd yw dywedyd pymtheg.
Hawdd yw tynnu cleddyf byrr o wain.
Haws cau â bŷs nac â dwrn. *Vid.* Ys.
Haws dadleu o goed nag o gastell.
Haws dringo na disgyn.
Haws dywedyd mynydd na myned.
trosto.
Haws gan hwyr na chan fore.
Haws gwneuthur hebog o farcud na marchog o daeog.
Haws llosgi tŷ na'i adeilad.
Haws twyllo maban na thwyllo gwrachan.
Heb Duw heb ddim, Duw a digon.
Hên bechod a wna cywilydd newydd.
Hên hawdd gorfod arnaw.
†Hir ammod nid â i dda. *Al.* annod.
Hir chwedl anghenog.
Hiraeth am farw ni weryd.
Hir eddewid i nâg.
Hir eistedd i ogan. *Aliàs*, ddiogi.
Hir ei lygad a wrthgrif.
Hirfrydig a yfo ei hollдda.
Hir fydd edau gwraig eiddil. *Al.* fusgrell.
Hir fydd i gybydd ei gabl.
Hir gnif heb esgor ludded.
Hir grawn gan newyn.
Hir Hûm Faelgwn yn eglwys Rôs.

Hir hynt a chyrchu llawgar.
Hir lladrad i grôg.
Hir lyngeswriaeth i fawdd.
Hir nŷch i angeu.
Hir pob aros.
Hirsaig a chyllell a flem.
Hir sefyll i drwm.
Hir weddwdod i fefl.
Hir wynniau i ddireidi.
Hir y bydd blewyn yn mynd yn nhin blaidd.
Hir y bydd chwerw hên alanas.
Hir y bydd enderig ŷch drygwr.
Hir y byddir yn cnoi tammaid chwerw.
Hir y bydd march bâch yn ebol.
Hir y bydd y mûd ymmhorth y byddar.
Hir yw'r mâb yn y ceubren.
Hoedl y dŷn ni chalyn y da,
Hoedl dŷn nid gelyn a'i rhann.
Hôff ymmenyn trathân.
Hôff gan anghenog ei goelio.
Hôff gan bob edn ei lais.
Hôff gan fadyn ei faw ei hun.
Hôff gan ynfyd ei gnwppa.
Hôff tam mâb ni charer.
Hŵch o bob heledd.
Hwyrwaith i anffynnedig.
Hwy clôd na golud.
Hwy pery llîd na galar.
Hwyra dial dial Duw, llwyra dial dial Duw.
Hydr gŵr o'i gymmydogaeth.
Hydr pob costog ar ei dom ei hun.
Hydr waedd gwaedd wrth fro.
Hygar pawb wrth a garo.
Hyd tra fych na fydd ofer.
Hyd yn oed yr undydd ydd â'r crochan ar y tân.
Hŷ pawb ar ei fabsant.
Hŷ pawb yn absen ofn.

I

IACH rŷdd rhyfedd pa gŵyn.
Iawn chwedlawg mâb.
Iawn i bawb i gadw ei hun.
Iro blonhegen.
Iro tin hŵch â bloneg,
I'r pant y rhêd y dŵr.

Ll

LLADD gwaed â'i ddwylaw ac â'i draed.
Llâdd y gwadn fel y bo'r troed, *Vid.* Ys dir.
Llais maen yn oerddwfr.
Llaw ddirieid a ddidawl ei pherchen.
Llaw llaws ar waith.
Llawer un a ddŵg newyn, ac er hynny gwraig a fynn.
Llawen meichiad pan fo gwynt,
Llaw fŷs llaw gywraint.
Llaw mâb yn llawes ei dâd.
Llaw lân diogel ei pherchen.
Llawer am hawl, un a'i dyly.
Llawer a weddill o feddwl chwannog.
Llawer câr baw ymdeg.
Llawer gair yn wynt a â heibio.
Llawer dŷn a wna cynnyg drŵg dros da.
Llawer gwir drŵg ei ddywedyd.
Llawer dŷn mawr ei eisiau, a eilw ei gi gydag ef.
Llawer o'r dŵr a â heibio heb wybod i'r melinydd.
Llawer rhwng byw a digon.
Llawer têg drŵg ei ddefnydd; llawer hagr hygar fydd.
Llawn i bobi golwyth.
Lleas pawb pan rydyngir.
Lle bo dolur y bydd llaw.
Lle caffo Cymro y cais.
Lle da i bawb lle y carer.
Lledfryd llâdd ei gydymmaith.
Lledled rydau.
Lleddid môllt ni ddyfydd.
Lleilai lymmaid gauaf.
Lle ni bo dŷsg ni bydd dawn.
Lle'r ymgreinio'r march y gedy beth o'i flew.
Llês pawb pan feddyger.

Llettaf fydd y biswelyn o'i sathru.
Llewid bwyd ni bo beichiawg.
Llewid cywestach.
Lliaws ei anaf ni garer.
Llif yn afon hinon fydd.
Llonn colwyn ar arffed ei feistres.
Llonn fydd y llygoden pryd ni bo'r gâth gartref.
Llwfr llâdd ei gydymmaith.
Llwmm o fanu, a tham o dorth, ni cheidw ei wyneb ys gwna gwarth.
Llwm tir ni phoro dafad.
Llwyd ac ynfyd ni ddygymmydd.
Llwyd pob hên.
Llwyd yw'r farchnad.
Llwyth gŵr ei gorwg.
Llyfid y ci'r gwayw y brather ag ef.
Llygad Duw ar adneu.
Llygad cywraint ymmhen anghywraint.
Llymmaf fydd y gwayw o'i flaen.
Llymma'r maes, llymma'r ysgyfarnog.

M

MAB côf gwr a'th gôf.
Mâb heb ddŷsg, tŷ a lŷsg.
†Mâb ryuech ry pennid.
Maeddu'r dylluan wrth y maen.
Mae gwehilion i'r gwenith.
Maen dros iaen.
Magu chwileryn ym mynwes.
Mai oer a wna ysgubor gymmes.
Mal adain i walch.
Malaen a ddyly ei daith.
Mal bwyd hely.
Mal ci a baw ar ei benn.
Mal cogail gwraig fusgrell.
Mal cŵn gan gyfreion.
Mal dall yn taflu ei ffonn.
Mal dau eurych.
Mal drygfonheddig a'i faich.
Mal dyrnod pen.
Mal aderyn ar y gaingc.
Mal eiry mawrth ar ben maen.
Mal ffonn Hywel ap Goronwy.
Mal gwaith Emrys.
Mal llwyth maen Ketti.
Mal llygad ym mhenn.
Mal llyn melin ar drai.
Mal llyu (*i. e.* llyfu) mêl oddiar ddrain.
†Mal tin oll yn ieud Grugunan.
Mal mynn magod.
Mal rhaw ym miswail.
Mal rhybudd hyd Wenni.
Mal tynnu bâch trwy goed.
Mal wy ar drosol.
Mal y bo'r dŷn y bydd ei lwdn.
Mal y cant y gŵr.
Mal y cerych dy fawl.
Mal y ci a'r hŵch.
Mal y ci pan lŷsg ei droed.
Mal y cŵn am y môch.
Mal ychenawg am ei geiniawg.
Mal y gath am y pysgod.
Mal y gwalch tros fin yr ellyn.
Mal y gwyddel am ei yrru allan.
Mal y gwyddyl am y ffalng.
Mal yr iâr dan y radell,
Mal y iâr, a'i baw i mewn, a'i hwy allan.
Mal y llin ar y maen,
Mal y llwynog ar yr ogfaen,
Mal y llyffan dan yr óg.
Mal y llygoden dan balf y gâth.
Mal y môch am y ffawydd.
†Mal y peillant ymdeg.
Mal y pŷsg am y dwfr.
Mal yr âb am ei cheneu.
Mal yr aran am ei ddwygoes.
Mal yr eddi am y garfan.
Mal y rhisg am y pren.
Mal yr hŵch dan y fwyall.
Mal yr hŷdd a'r blaidd.
Mal y saeth o'r llinyn.
Mal y tân yn y carth.
Mal y tan yn yr aelwyd.
Mal y try'r ddôr ar ei cholyn, y try'r diog yn ei wely.
Mam esgud a wna merch ddiog.
Mam fechan a ddifanw ei phlant.
Marchog a fydd wedi gŵyl.
March a syrth oddiar ei bedwarcarn.

March a wŷl yr ŷd ac ni wŷl y cae.
March i ddiawg, ci i lŵth.
Mawredig pendefig castell.
Mawrth a ladd, ebrill a fling,
Mawr yw toreth yr aflwydd.
Meddiant bychan i ewyllys drŵg.
Meddwl dŷn Duw a'i terfyn.
Mefl i'r cŏg ni lyfo ei law.
Mefl i'r llygoden untwll.
Mefl ys gnawd o wedd-dawd hir.
Mehefin heulawg a wna medel moch ddwyreawg.
Meithrin chwileryn ym mynwes. *Vid.* Magu.
Mêl a'i gola.
Melina tlawd ei gwynos.
Melys bŷs pan losgo.
Melys geirda am a garer.
Melyssaf fydd y cig po nesâf i'r asgwrn.
Melysaf y gwellt nesaf i'r ddaear.
Melys moes etto.
Melys pan gaer, chwerw pan daler.
Mi adwen iwrch er nas daliwyf.
Mi a gawn a fai gan fy mam, ac ni chawn a'i dygai i'r llann.
Moch barn pob ehud. *Vid.* Buan.
Moch ddysg nawf mab hwyad.
Moes pob tûd yn ei dûd.
Moled pawb y rhyd mal y caffo.
Moliant gwedi marw.
Morwyn ieuangc mab yn arffed.
†Mûd arynaig y llafar.
Mursen fydd o ŵr mal o wraig.
Mwy na breuan dinfoel.
Mwy nag un ci, a'm cyfarthodd i.
Mwy nag y mae da'r blaidd, nid da ei i-gell.
Mwy na'r afr er dangos ei thin.
Mwy na'r bêl dan yr hummog.
Mwy na'r cyfrwy i'r hŵch.
Mwy na'r rhegen yn y rhŷch.
Mŷned a'r gogr i'r afon.
Mynych heb raid bod ar wall.
Mynych i'r praidd bod ar wall, pan fo tywysog yr enderig.
Mynych y daw drwg fugail.
Mynych y syrth mefl o gesail.

N

NA beleu i fêl, na gwraig i felsig.
Nac îr wadu, hanbydd gwaeth.
Nac untrew na dau, ni nawdd rhag angeu.
Na choll dy henffordd er dy ffordd newydd.
Na chrêd fyth ferch dy chwegrwn.
Na ddala dy dŷ wrth gyngor dy drwyddedawg.
Na ddeffro'r ci a fo'n cysgu.
Naddiad dy fôch na âd yn rhwy.
Na ddifanw dy beriglawr.
Na ddos a gwr wrth ei fain. *Al.* Ddrych.
Na drygddyn ys gwell ci da.
Na fid dy elyn dy gymmydawg. *Alias*, dy gydymmaith.
Na fid dy wraig dy gyfrin.
Na fram oni'th wthier.
Na fydd frâd fugail i'r a'th gretto.
Na fydd oreisteddgar yn ystafell.
Na fydd rhy fwythus lle galler dy hepgor.
Na fynych gûr llwfr.
Naill ai llwynog ai llwyn rhedyn.
Namyn Duw nid oes dewin.
Nattur yr hŵch sydd yn y porchell.
Nawf maen hyd waelawd.
Na werth er bychodedd.
Na wrthod dy barch pan y cynnyccier.
Neges pendefig yn rhâd.
Nesaf i bawb ei nesaf.
Nês i mi fy nghrŷs na'm pais.
Nesnes y llefain i'r drêf.
Nês na choel.
Nês penelin nag arddwrn.
Neuadd pob diddos.
Neu'r fegaist a'th ddirprwy.
Newydd bennyg yn henfon.
Newid y gwewyr.
Newid y penweig.
Ni âd annoeth ei orfod.
Ni âd direidi ei garu.
Ni âd y môr hyd ei wregys.
Ni âd y môr marwolus ynddaw.

Ni baidd llwfr llan ehelaeth.
Ni bu Arthur ond tra fu.
Ni bu eiddil hên yn wâs.
Ni bu esgynnu gorŵydd oddiar geffyl.
Ni bu rygu na bai rygas.
Ni buttra llaw dyn er gwneuthur da iddo ei hun.
Ni buttra llynwyn.
Ni byddaf na thoryn dwyn, na chappan glaw.
Ni bydd âilt heb waered.
Ni bydd atglaf o glâf ŵr.
Ni bydd brawd heb ei hadfrawd.
Ni bydd bûdd o ychydig.
Ni bydd bual o losgwrn y ci.
Ni bydd cymmen neb oni fo ynfyd cyssefin.
Ni bydd chwedl heb ystlys iddo.
Ni bydd dal ty ar fynach yt.
Ni bydd dialwr diofn.
Ni bydd cyfoethog rhygall.
Ni bydd diriaid heb hawl.
Ni bydd doeth ni ddarllenno.
Ni bydd dyn dau Gymro.
Ni bydd gwann heb ei gadarn.
Ni bydd gŵr wrth ddim.
Ni bydd hunawg serchawg byth.
Ni bydd marw march er unnos.
Ni bydd moesawg merch a glyw lêf ceiliog ei thâd. *Vid.* Nid moesawg.
Ni bydd mynyglwen gwraig drygwr
Ni bydd mysyglawg maen o'i fynych drafod.
Ni bydd neb llyfn heb ei anaf.
Ni bydd preswyl pâ-g.
Ni bydd rhybarch rhy gynnefin.
Ni bydd y dryw beb ei lyw.
Ni chaiff chwedl nid êl o'i dŷ.
Ni chaiff rhy anfoddawg rhybarch.
Ni chân buwch hêsp lo.
Ni chân Dofydd diobaith.
Ni chân gwaith nis gorddyfno.
Ni chân morwyn mâb o'i thrêf.
Ni charawdd Grist a'i croges.
Ni charo ei fam, cared ei lysfam.
Ni cheffir hoedl hir er ymgeledd.
Ni cheffir gwastad i bêl.
Ni cheffir gwaith gŵr gan wâs.
Ni cheffir mwy na chôd y wrâch.
Ni cheiff dda ni ddioddefo ddrâg.
Ni cheiff dda nid êl yn namwain.
Ni cheiff ei ddewis gam a flóo.
Ni cheiff parch ar nis dylo.
Ni cheitt pwyll dis pryno.
Ni cheidw Cymro oni gollo.
†Ni chein sywedydd yn unfi on.
Ni cheir afal pêr ar bren sâr
Ni cheir bwyd taeog yn rhâd.
Ni cheir da o hir gysgu.
Ni cheir geirda heb pryd.
Ni cheir gan y llwynog ond ei groen.
Ni cheir gwlân rhywiog ar glûn gafr.
Ni cheir y melus heb y chwerw.
Ni chêl drycdir ei egin.
Ni chêl grûdd gystudd calon.
Ni chêl ynfyd ei feddwl.
Ni cherir newynog.
Ni cherir yn llwyr oni ddelo'r ŵyr.
Ni chlyw madyn ei ddrygsawr ei hun.
Ni chlyw wilkyn beth nis mynn.
Ni choelir y moel oni welir ei ymmennydd.
Ni cholles mam anmynedd.
Ni cholles ei gyfrif a ddechreuis.
Ni chrêd eiddig er a dynger.
Ni chrŷn llaw ar fabddysg.
Ni chwennych morwyn mynach baglawg.
Ni chwery câth dros ei blwydd.
Ni chwery hên gi â cholwyn.
Ni chŵsg dedwydd hûn fore.
Ni chŵsg Duw pan rydd gwared. *Vid.* Pan.
Ni chŵsg gofalus, ac e gŵsg galarus.
Ni chŵsg gwagfoly.
Ni chwyn ci er ei daro ag asgwrn.
Ni chŵyn yr iâr fod y gwalch yn glâf.
Ni chyfeirch angen ei borthi. *Vid.* Ni ddiylch.

Ni chyll yr iâr ei hirnos.
Ni chyll nyw dyfydd.. *i. e.* Ni bo.
Ni chymmerai gogyl am ei gâr.
Ni chymmer llu ceid ar tfo.
Ni chymmydd dedwydd a dadleu.
Ni chymmydd diawl a dwywawl.
Ni chyngain gan gennad gywilydd.
Ni chyngain gwardhal gan ddewis.
Ni chymmy gweinid arall.
Ni ddaliaf ddilys o ddŷn.
Ni ddaw côf i lŵyth ei grâch.
Ni ddaw côf i'r chwegr ei bod yn waudd.
Ni ddaw drwg i un na ddaw da i arall.
Ni ddawr croesan pa gabl.
Ni ddawr yr iâr, &c. *Vid.* Ni chwyn, &c.
Ni ddeil yr eryr ednogyn.
Ni ddefir coed o umpren.
Ni dderfydd cyngor.
Ni ddiddawr newynog pa yso.
Ni ddiffyg arf ar wâs gwŷch.
Ni ddiffyg esgus ar wraig.
Ni ddiffyg ffonn ar ynfyd.
Ni ddiylch angen ei borthi.
Ni ddŵg newyn mam weision.
Ni ddygymmydd médd a chybydd.
Ni ddyly cyfraith nis gwnél.
Ni ddyly drygfoly namyn drwg ysu.
Ni eill barnu ni wraudawo.
Ni eill Duw dda i ddirieid.
Ni eill dŷn ochel tynged.
Ni eill gwrâch gwared i'w phen.
Ni eill neb namyn ei allu.
Ni eing deufras yn unsach.
Ni eing mewn llestr ond ei lonaid.
Ni elwir daw hyd tranoeth.
Ni elwir cywraim ni gymmydd.
Ni elwir yn euog onis geirydd.
Ni ellir cwbl o anghwbl.
Ni erchyll enaid ni dduwyg.
Ni farn dyn, a charu hyd ym mhen y flwyddyn.
Ni fawr ddiolchir rhôdd gymmell.
Ni fawrhâa neges ni ragwyl ei les.
Ni fawrheir tra oganer.
Ni futtra, &c. *Vid.* Ni battra.
Ni fydd uchenaid heb ei deigr.
Ni fynn drygwraig ddal ei chŵd.
Ni fynno Duw m lwydd.
Ni fynn y Sant mor caws.
Ni hena ceudawd.
Ni hena eiddigedd.
Ni hena hawl er ei hoedl.
Ni hena meddwl.
Ni lâdd cawad mal y dygymmull.
Ni lâdd gegyfaddaw.
Ni lafur, m weddia, nid teilwng iddo ei fara.
Ni lâs cennad erioed, *and*
Ni leddir cennad.
Ni lûdd ammraint ffawd. *Alias*, *mendose* anniweirdeb.
Ni lûdd bendith ddiffetihwch.
Ni lwgr y da ar y llall.
Ni lwydd bendith ni haedder.
Ni lwydd cell goreisteddwraig.
Ni lwydd golud a wader.
Ni lwydd gwenyn i geiliawg. *Vid.* Nid bwyd.
Ni lwydd hil corph anniweir.
Ni lwyddodd ond a dramgwyddodd
Ni mâd newid ni chaiff elw.
Ni moch ddiail mefl merydd.
Ni moch wna da dŷn segur.
Ni nawdd eing llyfrder rhag llaith.
Ni nawdd caledi rhag bychodedd.
Ni nawd difeuwir cywraint.
Ni nawd gymmydd blaidd â dŷch.
Ni nawd uchenaid rhag gwael.
Ni oriddyfnwys câth cebystr. *Vid.* Nid cymmefin.
Ni phara cywydd namyn un flwyddyn.
Ni phell anrhegir tlawd.
Ni phell ddigwydd afal o afall.
Ni phella'r ehegr neb tlawd.
Ni phery cîg brâs yn wastad.
Ni phis bouheddig ei hun.
Ni phrynaf gâth yn ffettan.
Ni roddir gwlâd i fûd.
Ni rown erddo seren bren.
Ni rygelir y dryglam.
Ni saif gogan ar gadarn.
Ni sengis yr ŷch du ar dy dioed.

Ni thâg namyn wy.
Ni thâl dim cennad.
Ni thâl dim dŵŷg ynnead.
Ni thawdd dîêd er ei haros.
Ni thelir gweli tafod namyn i arglwydd.
Ni theîr saeth i ebawl.
Ni thorres Arthur nawdd gwraig.
Ni throf yn fy ammwlch.
Ni thŷf egin yn marchnad.
Ni thynnaf ddraen o droed arall, a'i ddodi i'm troed fy hun.
Ni thyrr penn er dywedyd yn dêg.
Ni thyrr llestr ni bo llawn.
Ni welais lam rhwydd i ewig.
Ni weles da yn nhŷ ei dâd, a hoffes da yn nhy ei chwegrwn.
Ni wîch ci er ei daro ag asgwrn.
Ni wisg cain ni wisg llain.
Ni wna'r llygoden ei nŷth yn llosgwrn y gâth.
Ni wna'r môr waeth na boddi.
Ni wnêl gyngor ei fam, gwnaed gyngor ei lysfam.
Ni wyddis eisieu'r ffynnon onid êl yn hesp.
Ni wŷl diriaid arno fai.
Ni wŷl dŷn a'i pyrth. *Alias*, Nid a wŷi, &c.
Ni ŵyr dŷn ddolur y llall.
Ni ŵyr dŷn nid êl o'i dŷ.
Ni ŵyr hawdd ei fod yn hawdd, onid êl hawdd yn anhawdd.
Ni ŵyr ni welodd, ni feidr ni ddŷsg
Ni ŵyr pryder nis prydero ac nis pryno.
Ni wŷr yn llwyr namyn llyfr.
Ni ŵyr yr hŵch lawn, pa wich y wâg.
Ni ŵyr yr îâr nesaf i'r ceiliog.
Nid â bawd yd ddyfnir llaeth llir.
Nid aeth rhyhir i goed.
Nid â côsp ar ynfyd.
Nid â cymyg arglwydd i lawr.
Nid adchwelawg gair.
Nid adwna Duw a wnaeth.
Nid â drwy fal y dêl.
Nid adwyth rhêg ni haedder.
Nid â gair i adwedd.
Nid â gwayw yngronyn.
Nid amwys a wnêl gwarth.
Nid angof brodyrdde.
Nid anudon ymchwelyd ar y da.
Nid â gost ar ynfyd, a'r ynfyd a ddaw ar y pôst.
Nid a rêd a gaiff y bûdd.
Nid â ar fôr mid ymlefain.
Nid ar redeg y mae aredig.
Nid ar nuwaith y câd Herbin.
†Nid âsgyr a gaffa tresgordd.
Nid â swîlt dau ddiebryd.
Nid â nutrew na dau i angeu.
Nid a wŷl dyn a'i pyrth
Nid benthyg ni hanffo gwaeth.
Nid bwrn nid i aich.
Nid bwyd gwenyn i geiliog. *Vid.* Ni lwydd.
Nid bwyd rhyfedd i ddiriaid.
Nid can ffau ar lwynog.
Nid côf gan yr offeiriad ei fod yn glochydd. *Alias*, Yn ysgolhaig.
Nid cyfoethog ond a'i cymmero.
Nid cymmaint bleddyn a'i drŵst.
Nid cymmefin brân a chanu.
Nid cymmefin câth a chebystr.
Nid cyttûn hûn a haint.
Nid cyweithas ond brawd, *or* Heb frawd.
Nid chwarae a fo erchyll.
Nid chwarae chwarae â thau, nac â dûr nac â haiarn.
Nid da rhy o ddim.
Nid dedwydd ni ddyfo pwyll.
Nid ellir coed o uapren. *Vid.* Ni ddelir.
Nid digon heb weddill.
Nid diswrth heb diog.
Nid diwyd heb nai.
Nid drŵg arglwydd namyn drŵg wâs. [or.
Nid drwg dim a wneler drwy gyng-
Nid drygwr wrth ddrygwraig.
Nid edrych angeu pwy decca' ei daleen.
Nid edrychir yn llygad march rhôdd
Nid eglûr edrych yn nhywyll.

Nid ei arfaeth a byrth dŷn, namyn ei dynged a'i herlyn.
Nid ef a byrth dŷn ei debyg.
Nid ef a ddiwg dŷn ei ddryg anmynedd.
Nid ef a gaiff pawb a fynn.
Nid ef hwn y mis nis gwnn.
Nid eiddaw Duw a watter.
Nid eiddun dedwydd dyhedd.
Nid eir a bwyd taeawg yn rhâd.
Nid ellir hael ar ni bo.
Nid erchis bwyd ond ei brofi.
Nid erchis yr hên Gyrys onid a fai rhwng y newidiau.
Nid ergyd ni gwrirer.
Nid erys Malldraeth ar Owein.
Nid esmwyth ymgyflogi.
Nid gair gair alltud ar Gymro.
Nid gnawd dialwr diofn. [rhent.
Nid gwaeth y geilwad angraff nâ
Nid gwaeth yr ymladd dig na glew.
Nid gwaradwydd gwelláu.
Nid gwely heb wraig.
Nid gwell dim na digon.
Nid gwell gormodd na rhyfychan.
Nid gwell gott na lleidr. *Vid.* Gwell.
Nid gwell i'r rhoddwr nag i'r lleidr.
Nid gwiw gwylder rhag eisieu.
†Nid gwr namyn gwrthsuni.
Nid hawdd blingo ag elestren.
Nid hawdd chwythu tân a blawd yngenau.
Nid hawdd deuddaw o'r unferch.
Nid hawdd difenwi cywraint.
Nid hawdd gwlana ar yr afr.
Nid hawdd lladratta oddiar leidr.
Nid hawdd tynnu mêr o bôst.
Nid hwyrach yn y farchnad, croen yr oen na chroen y ddafad. *Vid.* Cyn ebrwydded.
Nid iâch ond a fo marw.
Nid iangwr neb ar Ferwyn.
Nid llafurus llaw gywraint.
Nid llai cyrchir drwg na da.
Nid llai gwerth mefl na gwerth ffawd.
Nid llywiawdr namyn Duw.
Nid mâd un ni bu Gymro.
Nid mal aur da ydd â'r dŷn.
Nid mawr i'th gerid os rhwy a erchid.
Nid mi nid ti llewad cig y ci.
Nid moel gwr yn aros gwallt.
Nid moesawg morwyn a glyw lêf ceiliog ei thâd. *Vid.* Ni bydd moesawg.
Nid mwy gwaith cŏg na chanu.
Nid mynechdid maerioni.
Nid myned a ddêl eilwaith.
Nid neges heb farch.
Nid newid heb fâch.
Nid oedd hôff cyn ni ddifenwyd.
Nid o'i gorph ydd ymre y gwybedyn.
Nid oes ar uffern ond eisiau ei threfnu.
Nid oes cambren onid camran.
Nid oes cywilydd rhag gofid.
Nid oes gantho yr ewinedd i ymgrafu.
Nid oes gŵyl rhag elusen.
Nid oes neb heb ei fai.
Nid oes o ddim ond fel y cymmerer
Nid oes rhôdd namyn o fôdd.
Nid oes wâd tros waesaf.
Nid oes wyledd rhag anferthedd.
Nid prophwyd neb yn ei wlâd ei hûn.
Nid rhaid dangos dirieid i gŵn.
Nid rhaid dodi clôch am fwnwgl yr ynfyd.
Nid rhaid i ddedwydd ond ei eni.
†Nid rhaid peidi yn llŷs arglwydd.
Nid sorri yt ar dy fam.
Nid tân heb eirias.
Nid tebyg neb i Nêst.
Nid trêf tâd amhydedd arglwydd.
Nid trymmach y blewyn llwyd na'r
Nid twyll twyllo twyllwr. [gwyn.
Nid un anian iâch a chlâf.
Nid un-naws gwyros a gwern.
Nid unfryd ynfyd a chall.
Nid wrth brŷd gerid gwragedd.
Nid wrth ei big y mae prynu cyffylog.

Nid y bore y mae cannol diwrnod têg.
Nid y fam a ddywaid ar bawb.
Nid ydyw'r bŷd ond bychydig.
Nid ymgais dirieid a da.
Nid ymgar y llatteion
Nid ymweis a fo parch.
Nid yn unddydd yr adeilwyd Rhufain.
† Nid ysgar anghenawg ac anhychfryd.
Nid ysgar diriaid ac anhyedd.
Nid ystyn llaw ni rubuch calon.
Nid ystyr cariad cywilydd.
Noswyl iâr gwae a'i câr.
Nugiaw gan y cawn.

Traethawd o athronddysg Gymraeg.

Ni ŵyr ni ddŷsg.
Ni ddŷsg ni wrendy.
Ni wrendy ond astud.
Nid astud ond dedwydd.
Nid dedwydd onḍ a atto ei garu.
Ni ad ei garu ond difilain.
Nid difilain ond ufydd.
Nid ufydd ond tawedog.
Nid tawedog ond goddefus.
Nid dioddefus ond synhwyrol.
Nid synhwyrol ond cydwybodus.
Nid cydwybodus ond cywir.
Nid cywir ond meddylgar.
Nid meddylgar ond serchog.
Nid serchog ond cerddgar.
Nid cerddgar ond ymddiddangar.
Nid ymddiddan ond am Dduw.

Traethawd arall nid anwiw eiystyried.

Nid cyngor ond tâd.
Nid gweddi ond mam.
Nid ymgeledd ond chwaer.
Nid cadernid ond brodyr.
Nid galluog ond cefndŷr.
Nid cenhedlog ond cyfyrdyr.
Nid hoywder ond cleddyf.
Nid amddiffyn ond tarian.
Nid hyder ond bwa.
Nid brwydr ond gwewyr.
Nid llâdd ond dager.
Nid tŷ heb ŵr.
Nid tân heb gŷff.
Nid gwely heb wraig.
Nid ynfydrwydd ond cariad.
Nid ffolineb ond meddwdod.
Nid tlodi ond clefyd.
Nid gwall synwyr ond ymrysson.
Nid methiant ond musgrelli.
Nid doethineb ond tewi.
Nid diogi ond syrthni.
Nid syrthni ond pechod.
Nid pechod ond temtasiwn.
Nid tlawd ond nas cymmer.
Nid cyfoethog ond syber.
Nid gwresog ond yr haul.
Nid oer ond y lleuad.
Nid amlder ond sêr.
Nid buan ond gwynt.
Nid moliannus ond cyttundeb.
Nid cyfoeth ond iechyd.
Nid yspail ond gwynt.
Nid prudd-der ond marwolaeth.
Nid llawenydd ond nef.
Nid anhyfryd ond uffern.
Nid hyfrydwch ond gyda Duw.
Nid athrylith ond llawen.
Nid diddim ond trist.
Nid dedwydd ond diddrwg.
Nid diddrwg ond dibechod.
Nid dibechod ond sanctaidd.
Nid sanctaidd ond diwybod.
Nid diwybod ond disynwyr.
Nid hudoliaeth ond ienengetid.
Nid ieuengetid ond ennyd awr.
Nid twyll ond y byd.
Nid prudd-der ond cisiau.
Nid helaethrwydd heb ddigon.
Nid amheuthun llawer.
Nid siomedigaeth ond gwraig.
Nid difyrrwch ond milgi.
Nid llawenydd ond march.
Nid digrifwch ond gwalch.
Nid ofnog ond digasog.
Nid digasog heb achos.
Nid dioddefgar ond doeth.
Nid doeth a ymryson.

Nid mwynder ond merch.
Nid mapgar ond difilain.
Nid milain ond taeog.
Nid taeog ond cerlyn.
Nid cerlyn ond afrywiog.
Nid afrywiog ond iangwr.
Nid iangwr ond o arfereu.
Nid hawddgar ond difalch.
Nid difalch ond trugarog.
Nid trugarog ond deddfol.
Nid marchog heb ffonn.
Nid peddestr heb fwa.
Nid chwannog ond mâb.
Nid esgeulus ond gweinidog.
Nid cywir ond ci.
Nid melus ond pechod.
Nid chwerw ond penyd,
Nid ymddiried ond cydymmaith.
Nid hoffder ond etifedd,
Nid glân ond y pŷsg.
Nid cyfrinach ond rhwng dau.
Ni ŵyr ond a weles.
Nid yspys ond a ymofynno.
Nid cyfarwydd ond a wypo,
Nid call ond a gatwo yn ei gôf.
Nid dŷsg heb synwyr.
Nid gwenhieithus ond merch.
Nid afieithus ond diofal.
Nid gwenwynig ond câth.
Nid ffyrnig ond ci.
Nid creulon ond llew.
Nid cyfrwys ond eppa.
Nid dichellgar ond llwynog.
Nid ystrywgar ond ysgyfarnog.
Nid ethrylithgar ond bytheiad,
Nid diswrth ond byrrhwch.
Nid brwnt onid ffwlbert.
Nid moethus ond bele.
Nid bywiog ond gwiwair.
Nid esgud ond dyfrgi.
Nid esmwyth ond pathew.
Nid diffaith ond y-thum.
Nid bonheddig ond hŷdd,
Nid rhywiog ond march.
Nid gwâr ond ŷch.
Nid taeog ond eidion.
Nid rhadlawn ond dafad.
Nid llyseuwraig ond gafr.

Nid tomlyd onid bŵch.
Nid tég onid paun.
Nid rhyfygus onid bronfraith.
Nid serchog ond eos.
Nid balch ond alarch.
Nid syw ond y bi.
Nid siongc ond y dryw.
Nid cyfannedd ond ceiliog.
Nid afradlon ond iâr.
Nid ynfyd ond gŵydd.
Nid budr ond hwyad.
Nid gwrol ond ceiliog du.
Nid mwynaidd ond eog.
Nid llechiad ond cyffylog.
Nid anllad ond aderyn y to.
Nid musgrell ond ceiliagwydd.
Nid glŵth ond mulfran.
Nid anferth ond garan.
Nid trais ond tâu.
Nid rhwystr ond dŵr.
Nid ysgafn ond wybr.
Nid trwm ond daiar.
Nid dewr ond gwŷr.
Nid calonnog ond a gyrcho.
Nid diarswyd ond a arhóo.
Nid ofnog ond a ffóo.
Nid llwfr ond a lecho.
Nid anfeidrol ond dim.
Nid dim ond Duw.

Ychwaneg o'r cyffelyb.

Nerth eryr yn ei ylfin.
Nerth unicorn yn ei gorn.
Nerth sarph yn ei chloren.
Nerth hwrdd yn ei ben.
Nerth arth yn ei breichiau.
Nerth tarw yn ei ddwyfron.
Nerth ci yn ei ddant.
Nerth twrch yn ei aflach.
Nerth ysguthan yn ei hadanedd.
Nerth gwraig yn ei thafod.

O

O Achos y fammaeth y cusenir y mâb.
O bob ceinmyged cyffes oreu.

O bob ffordd o'r awyr ydd ymchwelo'r gwynt y daw glaw.
O bob trwm trymmaf henaint.
O bychydig y daw llawer.
O bydd cell i gi mynych ydd â iddi. *Vid.* Atfai.
O bydd llawen y bugail, llawen fydd y tylwyth.
O bydd neb yn ôl bid y bawaf.
O bydd uwch bawd na sowdl.
O cheri di ni'th garo, collaist a geraist yno.
Och wŷr nad aethan yn wragedd.
O chyrraedd fry ni ddaw obry.
Odid a ardd.
Odid a ddyry atteb.
Odid a gatwo wyneb o eisiwed.
Odid archoll heb waed.
Odid da diwarafun.
Odid difro diwyd.
Odidawg a fo didwyll.
Odid dŷn têg dianaf.
Odid eddewid a ddêl.
Odid elw heb antur.
Odid o'r cant cydymmaith.
O down ni, ni a ddown.
O down ni er pedwar ar ddêg, ni a ddown er pymtheg.
Oed y dŷn ni chanlyn y da.
Oedd raid deall i allfnd.
O eisiau gwrda y dodir bowddyn ar y bwrdd.
†O englyn ni ddaliaf haid.
Oer pob gwlŷb.
Oer yw isgell yr alanas.
O flewyn i flewyn ydd â'r pen yn foel.
O fôr ac o fynydd, ac o waelod afonydd, y dentyn Duw dda i ddedwydd.
Offeren pawb yn ei galon.
Ogfaenen yngeneu henwch.
O gywirdeb y galon y dywaid y giwrion.
O hir ddylêd ni ddylir dim.
O hoenyn i hoenyn ydd â'r march yn gwtta. [cawl.
O lymmaid i lymmaid y darfu'r
O llâdd y gâth lygodyn, Ar frŷs hi a'i hys ei hun,
O mynni nodi y iwrch, ti a fŵri naid angen. *Or,*
O mynni fod yn iyrchgi ti a fŵri naid a fo mwy.
Oni byddi cyfarwydd cyfarch.
Oni byddi grŷf bydd gyfrwys.
Oni byddi wrth gyngor dy fam, bydd wrth gyngor dy lysfam. *Vid.* Ni wnêl.
Oni cheffi gennin dŵg fresych.
Oni heir ni fedir.
Onid march ys caseg.
O'r ddenddrwg goreu yw'r lleiaf.
Os gŵr mawr cawr, os gŵr bychan corr.
O sûl i sûl ydd â'r forwyn yn wrâch

P

PA ham y bydd cûl y barcud? am ysglyfaid.
Paham y llŷf y ci y maen? am nas gall ei yssu.
Pa le yn y fuddai y mae'r enwyn.
Pan bwyser arnad, tynn dy droed attad.
Pan dywyso y dall ddall arall, y ddau a ddigwydd i'r pwll.
Pan dywyso'r enderig ei braidd ni bydd da i'r ysgrubl y dydd hwnw.
Pan êl lladron i ymgyhuddo y caiff cywiriaid eu da.
Pan fo addoed ar y geifr, y bychod a ridiir.
Pan fo ingaf gan ddŷn, ehengaf fydd gan Duw. *Vid.* Po.
Pan fo culaf yr ŷch, goreu fydd yngwaith.
Pan fo medierydd ar ben maluria, y bydd esgud asgell gwipia.
Pan fo tecca'r chwarae goreu fydd peidio.
Pan gaer mi hî ni cheir mi ha.
Pan laddo Duw y llâdd yn drwm.
Pan gysgo pawb ar gylched, ni chŵsg Duw pan rydd gwared.

Pan wypo dŷn lâdd ci cynddaredd a yrr arno. *Vid.* Y ci.
Pan nad rhyfedd na thŷf post aur trwy nen tŷ yr enwir.
Pan yrrer y gwyddel allan, ynfyd ydd heuir ei fod.
Pa waeth y dring y gâth ar ol torri ei hewinedd.
Pawb a chwennych anrhydedd.
Pawb a drais ym mhais ei dâd.
Pawb a gnith cedor ynfyd.
Pawb a'i chwedl cantho.
Pawb drosto ei hunan, Duw drosom ni i gyd.
Pawb yn llosgwrn ei henfon.
Pawb yn y gorphen.
Pe dywettai dafawd, a wypai geudawd, ni byddai gymmodawg neb rhai.
Pei y gâth a fyddai gartref, gwaeth fyddai i chwi.
Pen carw ar ysgyfarnog.
Pen ci ar fore wanŵyn.
Pen punt a llosgwrn dimmai.
Pen saer pob perchennog.
Pen dros bawb lle nis carer.
Perchi gŵr er ei fawed.
Pettwn dewiu ni fwyttawn furgyn.
Pieuffo'r fuwch aed yn ei llosgwrn.
Pilio wy cyn ei rostio.
Pob byw a enir i ysgar.
Pob cadarn gwan ei ddiwedd.
Pob cyffelyb ymgais.
Pob darogan dydderpid. *Alias*, derfid.
Pob dihareb gwir, pob coel celwydd.
Pob ddryll ydd â'r aing yn y pren.
Pob edn a edwyn ei gymmar.
Pob enwir difenwir ei blant. *Vid.* [Enwir.
Pob gwlad yn ei harfer.
Pob hir nychdod i angau.
Pob llwybr mewn ceunant i'r un ffordd a redant.
Pob llwfr llemmittor arnaw.
Pob peth yn ei amser.
Pob peth a ddaw trwy'r ddaiar, ond y marw mawr ei garchar.
Pob traha yn y gorphen.
Po cyfynga gan ddyn ehenga gan Dduw.
Po dyfna' fo'r môr diogelaf fydd i'r llong.
Po hena fo'r Cymro ynfytta fydd.
Po hyna' fo'r ŷd tebycca fydd i fŷd. *Vid.* Bo.
Po mwya' fo'r brŷs, mwya' fydd y rhwystr.
Po mwya' fo'r drafod, mwya' fydd y gorfod.
Po mwya' fo'r llanw, mwya' fydd y trai.
Po tynna fo'r llinyn cynta tyrr.
Pren ynghoed arall biau.
Prynhawn côch a mowredd gwraig.
Pryn hên pryn eilwaith.
Pryn tra flingych.
Pwy bynnag sy heb wraig sy heb
Pwyll a ddyly padell. [ymryson.
Pysgotta ym mlaen y rhwyd.

R

RHAG angau ni thyccia ffo.
Rhag anwyd ni weryd canwyll.
Rhag bod y sûl heb siglaw.
Rhag myned un llôg o'r tŷ.
Rhag newyn nid oes ŵyledd.
Rhagnythed iar cyn dodwi.
Rhag trymfryd ochid ychenawg.
Rhaid fydd i'r fuwch wrth losgwrn.
Rhaid i segur beth i'w wneuthur.
Rhaid wrth amhwyll pwyll parawd.
Rhaid yw croppian cyn cerdded.
Rhan druan rhan draian.
Rhan gorŵydd o dâd.
Rhan y gwâs o gig yr iâr.
Rhannu rhwng y bòl a'r cefn.
Rhettid carr gan orwaered.
Rhettid maen yn y gaffo wastad.
Rhewydd pob rhyfeddawd.
Rheiddawg ychenawg ar ffo. *Al.* ar gychwyn.
Rhin trîdyn cannyn a'i clyw.
Rhôdd ac adrodd rhôdd bachgen.
Rhôdd fawr, ac addaw bychan.

Rhódd Ifor ar ei gappan.
Rhôdd gwŷr Erging.
Rhôdd i hên nac adolwg.
Rhoi'r carr o flaen y march.
Rhoi'r dorth, a gofyn y datell.
Rhoi'r ordd dan y celynllwyn.
Rhuthr ci o gribardd.
Rhuthr enderig o'r âllt.
Rhuthr mammaeth.
Rhwng y ddwy ystôl ydd â'r din i lawr.
†Rhwy fu rhy fychod gynnen.
Rhwydd ni bo dyrys.
Rhybudd ofnawg a dal y ci.
Rhybudd i ddedwydd.
Rhybrynwys ry erchis.
Rhybrynawdd barfawg a eirch.
Rhybuched baw gares.
Rhybuched drygfab ei fam.
Rhy dynn a dyrr.
Rhy lawn a gyll.
Rhy uchel a syrth.
Rhygas rywelir.
Rhyfoddawg rhy fawr a wŷl.
Rhygas pob rhywir.
Rhygu pob rhyfychod.
Rhyw i fab iwrch lammu.

S

Sef a lâdd a gyhudd.
Sef a lwydd i fell ei chelu.
Sef yw blaidd y bugail.
Seith mlynedd y darogenir delli.
Siarad cymmaint a mâb saith gudyn
Siarad cymmaint a merddin ar bawl.
Siccraf yw yr hyn siccraf.
Sieffrai pieu'r troed, Sieffrai pieu'r fwyall.
Siommi Duw â mynach marw.
Sôn am Awst wiliau'r Nadolig.
Swrth pob diog.
Sychu twyn y sŵch.
Symmudaw addef rhag drŵg.
Syrthid march oddiar ei bedwarcaru.
Syrthid mefl o gessail.

T

Tabler i lysau, Tafarn i chwedlau.
Tafawd a dyrr asgwrn.
Tafawd aur ym mhen dedwydd.
Tafawd gelyn ar ddannedd, ni chydsain ar wirionedd.
Tafl âth unllaw, cais â'th ddwylaw. *Vid.* Bwrw.
Talwys a ryfeichwys.
Tawedog tew ei ddrŵg.
Tebyg oedd cŵd i gyfrwy.
Tebyg oedd hŵch i garegl.
Têg pob dianaf.
Têg pob hardd.
Têg tân bob tymp.
Teirgwaith y dywaid mursen bendith Duw yn tŷ.
Teirgwers gwraig rhewyd.
Telittor gwedi halawglw.
Terfyn cywiraf cyngwystl.
Toll fawr a wna toll fechan.
Tra bo'r borfa'n yn tyfu, y bydd marw'r march.
Tra fo'r ci yn maesa, ydd â yr ysgyfarnog i'r coed.
Trafferth ŷch hyd echwydd.
Traha, a threisio gweinion, a ddifa yr etifeddion.
Tra retto'r ôg rheded y freuan.
Tra retto'r ôg y rhêd y ddraenglwyd.
Trêch ammod na gwir.
Trêch a gais nag a geidw.
Trêch aman nag addysg.
Trêch Duw nâ drŵg obaith.
Trêch gwan Arglwydd na chadarn wâs.
Trêch gwlâd nag Arglwydd.
Trêch tynged nag arfaeth.
Treigl maen hyd wastad.
Trengid golud ni threinge molud.
Trengid lûd ni threinge golud.
†Trengis a fremmis. *Alias,* Freftrickid cyn ni wahodder.
Trickid wrth barch ni thrig wrth ei gyfarwys.

Trist pob galarus.
Troi o bobtu i'r berth.
Troi'r gâth yn yr haul.
Trychu nid hawdd ei ochel.
Trydydd troed i hên ei ffon.
Tu ni fynno Duw ni lwydd.
Tw farch benthyg.
Twyll drwy ymddiried.
†Twylid rhyfegid rhyfygaid.
Twyllwr yw gwobr.
Tyfid maban ni thŷf ei gadachau.
Tyfid ebawl o hyd garr.
Tyfid enderig o'i dorr.
Tynghedfen gwraig ott.
Tynnu bâch trwy goed.
Tyst yw'r chwedl i'r Euglyn.
Tywyll boly hyd pan lefair.
†Tywynnid greynyn i rann.

U

UCHENAID at ddoeth.
Uchenaid gwrâch ar ôl ei huwd.
Ucher a ddaw gan ddryg-kin.
Un arffed a fâg i gant.
Un cam diogi, a wna dau a thri.
Unllaw ar dân caullaw ar wlân.
Unllawiog fydd mammaeth.
Unllygeidiog fydd brenin yngwlâd y deilliaid.
Un geiniawg a ddyly cant.
Unpryd yr iâr yn yr ysgubor.
Untrew o garchar.
Unwaith yr aeth yr Arglwyddes i nofio hi a foddodd.
Uwch pen na dwy ysgwydd.

W

WAETHWAETH, &c. *Vid.* Gwaethwaeth.
Wellwell, &c. *Vid.* Gwellwell.
Wyneb trist drŵg a cry.
Wylid ni wŷl ei berchen.
Wythnos y llwynog.

Y

Y Bendro wibwrn.
Y bol a bil y cefn.
Y bûdd a lûdd y lludded.
Y câr cywir yn yr ing y gwelir.
Ychydig laeth a hynny yn enwyn.
Ychydig yn aml a wna llawer.
Y ci a fynnir ei grogi a ddywedir ei fod yn llâdd defaid.
Y cŷn a gerddo a yrrir.
Y cyntaf a ddêl i'r felin, maler iddo yn gyntaf.
Y cyntaf a'i clybu, dan ei din y darfu.
Y cyntaf ei ôg, cyntaf ei grymman.
Y dafn a dyll y garreg, nid o gryfder ond o fynych syrthio.
Y diweddaf a orddiwedder ar y freuan, ar hwnnw y dielir.
Y dŷn a werthodd ei dŷ, ym mha wlâd y caiff letty.
Ydyw corn heb ysgyfarn.
Y fefl a wneler yn rhîn nant, hi a dywynyg yngwŷdd cant.
Y felin a tâl a fynn dwfr.
Y ferch a ddêl i'w phrofi, hwyr y daw i'w phriodi.
Y gâth a fo da ei chroen a flingir.
Y gneuen goeg sy' galettaf.
Y gŵr yn ceisio ei gasseg, a'i gasseg dano.
Y gŵn a roed i gannwr, ac nid a'r gŵn o dŷ'r gŵr.
Y llaw a rydd a gynnull.
Y march a fydd marw tra fo'r gweilt yn tyfu. *Vid.* Tra fo.
Y march a wŷl yr ŷd ac ni wŷl y cae.
Y march a fram a ddŵg y pwnn.
Ymbell ymmheuthun a wna mefl.
Ymguddio ar gefn y gist.
Ymhob daioni y mae gobrwy.
Ymhob drygioni y mae pechod.
Ymhob dewis y mae cyfyngder.
Ymhob crefft y mae ffaleder.

Ymhob clwyf y mae perygl.
Ymhob gwlâd y megir glew.
Ymhob dyn y mae enaid.
Ymhob enaid y mae deall.
Ymhob deall y mae meddwl.
Ymhob meddwl y mae naill a'i drŵg a'i da.
Ymbob rhith y daw angeu.
Ymhob rhyfel y mae gofal.
Ymhob pechod y mae ffoledd.
Ymryson â'r gôf yn ei efail.
Ymryson â doeth ti a fyddi doethach.
Ymryson â ffôl ti a fyddi ffolach.
Y mûd a ddywaid y gwir.
Ymchwelid Duw ei law yngauafnos.
Y naill flwyddyn a fydd mam i ddyn, a'r llall fydd ei elldrewyn.
Yn ceissio'r blewyn glâs y boddodd y gasseg.
Y neb a saetho ar adrybedd, a gyll ei saeth.
Y naill wenŵyn a lâdd y llall.
Y neb a fo a march gantho a gaiff farch ym menthyg.
Ynfyd a gabl ei wrthban.
Yn y croen y ganer y blaidd y bydd marw.
Yn y lle y bo'r da y rhoir ac y tyccia.
Yn y lle'dd ymgreinio'r march ydd edy beth o'i flew.
Yr aderyn a faccer yn uffern, yn uffern y mynn drigo.
Yr afr ddu a lâs.
Yr hai a laddodd yr hŵch.
Yr hoedl, er hyd fo ei aros, a ddeffydd yn ddŷdd ac yn nós.
Yr hŵch a dau a fwytty'r soeg.
Yr hŵch a wich, ys lli a lâdd.
Yr oen yn dysgu i'r ddafad bori.
Yr un asgwrn a dâl.
Ys da felin a ballodd.
Ys dir drŵg rhag drŵg arall.
Ys dir i hael a roddo.
Ys dir llâdd y llafn wrth refed y troed. *Vid.* llâdd.
Ys drŵg y deg ewin, ni bortho i'r un gylfin.
Ys ef a lâdd a gyhudd.
Ysgafnllwyth a glûd coed.
Ysgafn y daeth, ysgafn yr aeth.
Ysgrubl dirieid yn cidiaf.
Ys gwêll cân mesur na chan trwch.
Ys gwêll cau â bŷs nag à dwrn. *Vid.* Haws.
Ys id ar bawb ei bryder.
Yssid bwyd drygwr heb ei ddiolch.
Yssu bwyd yr ynfyd yn y blaen.
Ys marw a fo dibaith.
Ystum llawgar yn rhannu.
Yspys y dengys y dŷn, O ba râdd y bo ei wreiddyn. *T. A.*

Câs bethau gŵŷr Rhufain.

BRENIN heb ddoethineb.
Marchog heb profedigaeth.
Arglwydd heb gyngor.
Gwraig heb feistrolaethwr
Cyffredin heb gyfraith.
Gwasanaethwyn heb ofn.
Tlawd balch.
Cyfoethog heb elusen.
Iustus heb gyfiawnder.
Esgob heb ddŷsg.
Henddyn heb ddwywoldeb.
Ieuangc heb ostyngeiddrwydd.
Doeth heb weithredoedd da.

Casddynion Selyf ddoeth.

Dyn
Nis gwypo ac nis dysgo.
Ni bo ganddo a'i gwasanaetho, ac nis gwasanaetho ei hun.
Yr hwn a ddelo iddo lawer ac ni roddo ddim.
A ymrysono a'i arglwydd oni él i'w bwll.
A fo rhyfelwr llesg, ac ni ddymuno heddwch o flaen rhyfel.
A ogano arall am y beiau a fo arno ei hun.

A dybŷp ei fod yn well nâ neb ar bob peth, ac yntau yn waethaf oll.
A echwyno cymmaint, ac na bo ganddo a'i talo.
A roddo ei gwbl, ac a fo ei hûn heb ddim.
A addawo bob peth, ac ni chywiro ddim.
A fygythio bawb, ac ni bo ar neb ei ofn.
A ddywetto lawer, ac ni wrandawo ar neb.
A archo pob peth a welo, ac ni chaffo ddim.
A addefo ei rin i'w elyn, neu i'r nêb y gwypo nas cêl.
A fasnacho bob peth, ac heb prynu dim.
A dyngo lw anudon, ac ni bo neb yn ei gredu.
A'i rhoddo ei hun mewn anurddas, er urddas i un arall.
A welo lawer o foesau a chelfyddydau, ac ni ddysgo ddim.
A bryno bob peth, ac heb ynill dim.
A gasao bawb, a phawb yntau.
Na chretto neb, na neb yntau.
A ymyrro ar bob peth heb achos.
A geisio gêl gan ddŷn dieithr.
A gretto i bawb er nas adnappo.
A wnelo yn un dydd, fel na allo dranoeth.
A ymddirietto i rôdd.
A gaffo ddewis, ac a ddewiso'r gwaethaf.
A debycco orfod o falchder.
A gasao ei lês er aîles i'w gymmydog.
Ni wnêl da, ac nis gatto i arall.
A ymgadarnhao mewn drŵg olwg.
A dybio ei fod yn gall, ac yntau yn angall.
A ddysgo lawer, ac ni wypo ddim.
A adawo ei gydymmaith heb achos.
A wnêl drŵg, ac ni bo edifar ganddo.
Tlawd a wrthotto crynodeb.
A wypo gyfraith Duw a'i orchymmynion, ac a ddadleu yn eu herbyn er gwobr.
A ymffrostio o'i gywilydd ei hûn.
A ddirmygo Duw a dŷn.

A dreuliais a fu fau,
A roddais a sy fau,
A gedwais a gollais,
A neccéais sydd i'm colli
} *Medd yr enaid.*

Dŷsg yn grâff a welych.
Cadw yn grâff a ddysg ych.
Adrodd y peth a fettrych.
Ni wêdd yn bencenedl ond gŵr a ymladdo gyd a'i gâr ac a ofner, a ddwetto gyda'i gâr ac a wrandawer, a fechnio gyda'i gâr ac a gymmerer.

Iachaf cîg llwdn gwŷllt, Iwrch.
Iachaf cig llwdn dôf, Twrch.
Iachaf cîg edn gwŷllt, Petris.
Iachaf cig edn dôf, Iâr.
Iachaf pysgod môr, Llythi.
Iachaf pysgod dŵr croyw, Draenog a Brithyll.

Tri chadarn bŷd.

Arglwydd, yr hwn sydd faen dros iaen.
Drûd, ni wnêl ond a fynno.
Diddim, ni bo dim i'w gael gantho.

Saith gynneddf ynad.

Mûd a llafar, Drûd a byddar, Ynfyd, ofnawg, a golleichiawg. K.

Y

PEDAIR CAMP AR HUGAIN.

O'R 24 hyn, dêg gwrolgamp sydd, a dêg mabolgamp, a phedair o'r gogampau. O'r dêg gwrolgamp, chwêch sydd o rym corph: 1. Cryfder. 2. Rhedeg. 3. Neidiaw. 4. Nofiaw. 5. Ymafael. 6. Marchogaeth. Ac o'r chwêch hyn pedair sy bennaf, ac a elwir tadogion gampau, sef Rhedeg, Neidio, Nofio, Ymafael. A hwy a elwir felly am nad rhaid wrth ddefnydd yn y byd i wneuthur yr un o honynt, ond y dŷn fal y ganed. Y pedair gwrolgamp o rym arfau yw, 1. Saethu. 2. Chwareu cleddyf a bwccled. 3. Chwareu cleddeu deuddwrn. 4. Chwarau ffonn ddwybig.

O'r dêg mabolgamp, tair helwriaeth sydd, 1. Hely a milgi. 2. Hely pŷsg. 3. Hely aderyn. A saith gamp deuluaidd, 1. Barddoniaeth. 2. Canu telyn. 3. Darllain Cymraeg. 4. Canu cywydd gan dant. 5. Canu cywydd pedwar ac accenu. 6. Tynnu arfau. 7. Herodraeth. A'r pedair a elwir gogampau yw, 1. Chwarau gwyddbwyll. 2. Chwarau towlbwrdd. 4. A Chyweiriaw telyn.

Y

NAW HELWRIAETH.

O'R naw Helwriaeth, tair helfa gyffredin sydd; 1. Carw. 2. Haid wenyn. 3. Gleisiad: A thair helfa gyfarthfa, 1. Arth. 2. Dringhedydd. 3. A Cheiliog coed: A thair helfa ddolef, 1. Llwynog. 2. Ysgyfarnog. 3. Iwrch. Y Carw a ddywedir ei fod yn un o'r tair helfa gyffredin, yn gyntaf, am ei fod yn wychaf ac yn wrolaf anifail y mae helwriaeth arno â bytheiad ac â milgwn: yn ail, am ei fod yn rhannog rhwng pawb a ddêl atto wedi ei lâdd, cyn tynnu'r croen oddiamdano: oblegid, os bydd gŵr ar ei daith yn dyfod heibio yr amser hwnnw, ef a gaiff rann o hono wrth gyfraith cystal a'r neb a'i lladdo. Haid wenyn sy helfa gyffredin, oblegid pwy bynnag a'i caffo ar ei dir ei hun, neu ar dir arall, y mae yn rhannog pawb o honi ar a ddêl atti cyn rhoi o hono wystl, sef yw hynny rhoi nôd wrthi i ddangos mai efe a'i cafas gyntaf; ac onis gwna, pawb a ddelo yno a gaiff rann o honi, ond bod *4d.* yn myned i berchennog y tir. Gleisiad a elwir yn helfa gyffredin, oblegid pan fydder yn ei hely â rhwyd neu â thryfer, neu mewn modd arall, pwy bynnag a ddêl atto cyn ei rannu, y mae iddo rann o hono cystal a'r neb a'i dalio; os bydd mewn dŵr cyffredin.

Yr Arth sy helfa gyfarthfa, am ei bod yn gig hely o'r pennaf, ac am na bydd fawr ymlid arni, am nas gall gerdded ond yn araf, ac ni bydd ond ei baeddu, a'i chyfarth, a'i llâdd.

Dringhedydd yw pob peth a ddringo i frîg pren i'w amddiffyn ei hun. Ac ni ddyly heliwr ddywedyd Bele, neu Gâth goed, neu Wiwair, neu Ffwlbart, ond eu galw Dringhedydd llwyd, dringhedydd du, dringhedydd côch. Ac am nas gall dringhedydd ddiange ym mhell, ond dringo i'r pren, ac yno ei faeddu a'i gyfarth a wnair.

Ceiliog coed a elwir yn helfa gyfarthfa, oblegid pan ddêl y bytheiad ar ei hynt ef, ei ymlid a wnânt oni gymmero bren, ac yno ei gyfarth a'i faeddu a wnair.

Y Cadnaw sydd helfa ddolef, oblegid er maint fo'r gwaeddi a'r canu cyrn ar ei ôl, ef a gynnal ei helynt oni flino.

Ysgyfarnog sydd helfa ddolef am ei bod yn cadw ei helynt er maint fo'r ymlid arni.

Yr Iwrch a elwir yn helfa ddolef oblegid yr un achos.

Pennaf cig hely yw Carw, ac Ysgyfarnog, a Baedd gwyllt, ac Arth.

Os gollyngir milgwn i garw neu anifail arall, a'i ymlid o'r milgwn dros fryn, allan o olwg, a'i lâdd, y milgi blaenaf yn y golwg diwethaf biau'r croen. Ond ni chaiff miliast groen er ei ynnill, oni bydd hi yn dorrog o filgi a ennillodd groen, ac yna hi a'i caiff.

Am Ysgyfarnog, pa beth bynnag a'i lladdo, y ci neu'r peth arall a'i cotto o'i gwâl a'i piau, os ei cheisio y byddir i'w hymlid.

Y naw helwriaeth a ddyly bawb eu gwybod ar a ddygco gorn. Ac oni feidr roi atteb am danynt, ef a gyll ei gorn. Ac os daw neb i hely a'i gynllyfan amdano, oni feidr roi atteb am y naw helwriaeth, ef a gyll ei gynllyfan. Ond ef a all fod a'i gynllyfan am ei fraich yn ddiddial.

Ni all neb illwng na milgi na miliast i un anifail pan fo'r bytheiaid yn ei ymlid, oni bydd iddo ynteu fytheiaid yn ei ymlid; ac oni bydd, fe all y neb a fo yn canlyn y bytheiaid dorri llinyn garr ei filgi, os efe a'i gillwng.

Nid rhŷdd i neb saethu anifail y bo helwriaeth arno, pan fo yn ei esmwythdra, tan boen colli ei fwa a'i saeth i arglwydd y tir. Ond efe a gaiff ei saethu, a'i lâdd os gall, pan fo'r huaid ar ei ôl; ond na chaiff saethu ym mysg y cŵn.


Os â neb i hely, a gillwng ar anifail, a chyfarfod o gŵn segur ag ef, a'i lâdd, y cŵn cyntaf bieufydd, onid cŵn y brenhin fydd y rhai segur.

Yr anifail a helier fydd ar arddelw yr heliwr cyntaf, hyd oni ymchwelo ei wyneb parth a'i gartref, a'i gefn ar yr hely. Ond o bydd ei gŵn ef yn hely, ac ynteu wedi ymadael a'i gŵn ni ddyly ef ddim cyd lladdo y cŵn segur ef, ond perchennog y cŵn segur bieufydd.

Felly'r oedd y gyfraith hely gynt.

DIWEDD.

Trefriw argraffwyd gan I. Davies, 1815.


LIBRARY OF CONGRESS
0 003 125 788 8